CYNGOR SIR PENFRO
Pembrokeshire County Council

# ADDYSG

---

## CYNNIG I GAU
## YSGOL CLYDAU

# DOGFEN YMGYNGHORI

## Rhagfyr 2025

# Cynnwys


**Rhagair** 3
**Adran 1 – Cyflwyniad** 4
**Adran 2 – Ymgynghoriad** 5
**Adran 3 – Y Status Quo – Cefndir** 8
**Adran 4 – Safonau Cyfredol yr Ysgol** 15
**Adran 5 – Y Cynnig** 18
**Adran 6 – Opsiynau Amgen a Ystyriwyd** 31
**Adran 7 – Y Broses Statudol** 33
**Adran 8 – Cwestiynau Cyffredin** 34

**Atodiadau**
- **1 – Manylion yr Ysgolion yr Effeithir Arnynt** 37
- **2 – Detholiadau o Adroddiadau Estyn** 39
- **3 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Nodau Llesiant** 43
- **4 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** 51
- **5 – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** 53
- **6 - – Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar y cynnig trefniadaeth ysgol cynnig trefniadaeth** 57

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** 73

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon.  Mae bod â’r ysgolion cywir o'r math cywir yn y lleoedd cywir a sicrhau eu bod yn addas i'n dysgwyr yn yr 21ain ganrif yn her sy'n ein hwynebu ni a phob cyngor ledled Cymru.

Mae cwrdd â'r her hon yn cynnwys adolygu nifer a mathau yr ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal, ac asesu a yw'r defnydd gorau’n cael ei wneud o'i adnoddau a'i gyfleusterau ai peidio.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd a chynaliadwyedd darpariaeth addysgol y dyfodol
- Digonolrwydd a hygyrchedd lleoedd ysgol
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgolion
- Gwerth am arian

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r cynnig i gau Ysgol Clydau.  Edrychaf ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

**Steven Richards-Downes**
**Cyfarwyddwr Addysg**

# 1. Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Sir Penfro ddyletswydd statudol i sicrhau lleoedd ysgol digonol ac addas yn ei ardal ac i benderfynu a yw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Yn ei gyfarfod ar 8 Mai 2025, ystyriodd Cyngor Sir Penfro adroddiad y Gweithgor Moderneiddio Ysgolion a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad o ddarpariaeth addysg yn ardal Preseli. Yn benodol, roedd yr adolygiad yn ystyried faint o leoedd ysgol dros ben sydd yn yr ardal, yn erbyn gostyngiad sylweddol yn y boblogaeth disgyblion. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas ag Ysgol Clydau, gan gynnwys cost lleoedd ysgol gynradd, ac roedd yn cloi gydag argymhelliad. Roedd hefyd yn cydnabod y diffinnir Ysgol Clydau fel ysgol 'wledig' yng nghyd-destun y '*Rhagdybiaeth na chaiff ysgolion gwledig eu cau'* yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru gyda'r Cyngor yn gwneud penderfyniad i ystyried / craffu ar gynnwys y Papur Cynnig fel rhan o'i broses gwneud penderfyniadau.

Roedd penderfyniad y Cyngor fel a ganlyn:

| |
|---|
| Bod y Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei awdurdodi i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Clydau. |

Mae'r ddogfen hon yn bodloni rhan o gyfrifoldeb y Cyngor Sir o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â rhanddeiliaid priodol ac i roi esboniad ar gynnig y Cyngor i gau Ysgol Clydau Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyfle i ymgyngoreion gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau neu gynigion y maent am iddynt gael eu hystyried, a hefyd egluro pam nad ydynt yn ffafrio opsiynau eraill a ystyriwyd.

Bydd ymgynghori ar y cynnig hwn yn cydymffurfio â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. O ganlyniad, prif bwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth a chasglu barn rhanddeiliaid dynodedig. Am wybodaeth bellach ar y broses statudol, gweler Adran 7.

# 2. Ymgynghoriad

## 2.1 Gyda phwy y byddwn yn ymgynghori?

<table>
<tr><td colspan="2">Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwaid, Staff a Chorff Llywodraethu'r ysgolion y mae’r cynnig yn effeithio arnynt:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ysgol Clydau</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyrff Llywodraethu ysgolion eraill y mae’r cynigydd yn ystyried y byddant yn debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion.</td></tr>
<tr><td>• Ysgol Bro Preseli<br>• Ysgol Brynconin<br>• Ysgol Maenclochog<br>• Ysgol Eglwyswrw<br>• Ysgol Cilgerran<br>• Ysgol Llandudoch</td><td>• Ysgol y Ddwylan<br>• Ysgol Hafodwenog<br>• Ysgol Bro Brynach<br>• Ysgol Beca</td></tr>
<tr><td>Aelodau Etholedig:</td><td></td></tr>
<tr><td>• Paul Davies AS – Etholaeth<br>• Cefin Campbell AS – Rhanbarthol<br>• Joyce Watson AS – Rhanbarthol<br>• Eluned Morgan AS – Rhanbarthol<br>• Jane Dodds AS - Rhanbarthol<br>• Ben Lake MP (Ceredigion Preseli)</td><td>• Cyng. Iwan Ward<br>• Cyng. Shon Rees<br>• Cyng. John Davies</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynghorau Tref (CT) a Chymuned (CC) Perthnasol:</td></tr>
<tr><td colspan="2">CC Clydau, CC Crymych, CC Boncath, CC Manordeifi</td></tr>
<tr><td colspan="2">Undebau Llafur:</td></tr>
<tr><td colspan="2">NUT, NASUWT, UCAC, NAHT, ASCL, UNSAIN, UNITE, GMB</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr Eglwys yng Nghymru a’r Awdurdod Esgobaethol Catholig:</td></tr>
<tr><td>Tyddewi</td><td>Archesgobaeth Caerdydd - Mynyw</td></tr>
<tr><td colspan="2">Awdurdodau Lleol</td></tr>
<tr><td>Cyngor Sir Caerfyrddin</td><td>Cyngor Sir Ceredigion</td></tr>
<tr><td>• Gweinidogion Cymru<br>• Estyn<br>• Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys</td><td>• Comisiynydd y Gymraeg<br>• Partneriaeth – Consortiwm Addysg Ranbarthol<br>• Bwrdd Iechyd Hywel Dda</td></tr>
<tr><td>Darparwyr gofal plant annibynnol/ blynyddoedd cynnar /gwirfoddol</td><td>Lleoliadau Cylchoedd Chwarae:<br>Cylch Meitrhin Hermon<br>Cylch Meithrin Bwlchygroes<br>Cylch Meithrin Crymych<br>Meithrinfa Playdays<br><br>Gwarchodwyr plant:<br>MG - Blaenffos<br>LP - Boncath</td></tr>
</table>

## 2.2 Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Bydd y plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu'r holl ysgolion a nodwyd uchod yn gallu cymryd rhan yn y broses ymgynghori trwy eu Cynghorau Ysgol. Bydd y wybodaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n berthnasol i'w hoedran a'u lefel debygol o ddealltwriaeth ac yn unol â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc. Bydd y wybodaeth a gesglir o'r ymgynghoriad â disgyblion yn ffurfio rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor.

## 2.3 Pryd mae'r cyfnod ymgynghori'n dechrau ac yn dod i ben?

**BYDD Y CYFNOD YMGYNGHORI AR Y CYNNIG HWN YN DECHRAU DDYDD MAWRTH 9 RHAGFYR 2025 AC YN DOD I BEN DDYDD GWENER 23 IONAWR 2026**

Yn ystod y cyfnod hwn gallwch fynegi eich barn trwy ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Addysg trwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

| | |
|---|---|
| Llythyr at: | Steven Richards-Downes<br>Cyfarwyddwr Addysg<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd<br>SA61 1TP |
| E-bost: | EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk |
| Ffurflen Ymateb: | Gweler y ffurflen sydd yng nghefn y ddogfen hon |
| Ar-lein: | www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau |

Gallwch gyflwyno'ch barn o blaid, neu yn erbyn y cynnig. Ni fydd ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol a amlinellir yn Adran 7.

**SYLWCH Y DYLAI POB GOHEBIAETH GYRRAEDD ERBYN 5PM DDYDD GWENER 23 IONAWR 2026 FAN BELLAF**

## 2.4 Beth fydd yn digwydd ar ôl y broses ymgynghori?

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori bydd yr adborth yn cael ei goladu a'i grynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori a'i gyflwyno wedyn i'r Cyngor Sir. Bydd yr adroddiad hwn ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor a gellir cael copïau caled ar gais o EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk neu drwy ffonio 01437 775164. Bydd y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn penderfynu a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna ddiwedd y cynnig hwn. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi. Cyhoeddir yr Hysbysiad Statudol ar wefan y Cyngor a'i arddangos yn yr ysgolion

a enwir a lleoedd amlwg eraill yn y gymuned.  Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion perthnasol i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr ac aelodau staff.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, bydd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynnig yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, bydd angen cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor cyn pen 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol.

Os derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y rhain yn cael eu crynhoi mewn Adroddiad Gwrthwynebu a gyhoeddir ar wefan y Cyngor a bydd rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid a staff yr ysgolion perthnasol yn cael gwybod bod yr adroddiad ar gael.  Bydd yr holl ymgyngoreion a restrwyd yn gynharach yn yr adran hon yn derbyn copïau caled o'r adroddiad neu'n cael e-bost gyda dolen i'r lleoliad perthnasol ar y wefan.

Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu wedyn yn cael ei ystyried gan y Cyngor cyn penderfynu a ddylai'r cynnig fynd yn ei flaen ai peidio.  Pan gaiff penderfyniad ei wneud, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd yr holl ymgyngoreion yn cael eu hysbysu.

### 2.5 Eich cwestiynau

Mae cynnwys y ddogfen hon yn debygol o roi atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin a fydd yn codi ynghylch y cynnig.  Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â Mike Cavanagh ar y cyfeiriad e-bost canlynol: EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk

# 3. Y Status Quo – Cefndir

### 3.1 Ysgol Clydau

Mae Ysgol Clydau yn ysgol gynradd gymunedol 4-11 sydd wedi'i lleoli ym mhentref Tegryn ac yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Penfro. Daw disgyblion yr ysgol o ardal wledig fawr i'r dwyrain o Grymych, ac o ardaloedd cyfagos yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Yn gyffredinol, mae dalgylch yr ysgol yn gwasanaethu ward etholiadol Boncath a Chlydau, ond mae hefyd yn gorgyffwrdd ychydig â wardiau etholiadol Crymych a Mynachlogddu, a Chilgerran ac Eglwyswrw. Dangosir dalgylch yr ysgol yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Mae proffil oedran y disgyblion oedd ar y gofrestr ym mis Medi 2025 ar gyfer pob dosbarth, a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgol blynyddol blaenorol fel a ganlyn:

| | **YSGOL CLYDAU** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Meithrin | | Derbyn | Bl1 | Bl2 | Bl3 | Bl4 | Bl5 | Bl6 | Nifer ar y Gofrestr |
| | Rhan-amser | Amser llawn | | | | | | | | |
| Dosbarth 1 | 0 | 0 | 2 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12 |
| Dosbarth 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 1 | 7 | 12 |
| Medi 25 | 0 | 0 | 2 | 5 | 5 | 1 | 3 | 1 | 7 | **24** |
| Ion 25 | 0 | 1 | 7 | 5 | 1 | 4 | 3 | 9 | 5 | **35** |
| Ion 24 | 0 | 4 | 6 | 1 | 5 | 5 | 10 | 6 | 4 | **41** |
| Ion 23 | 0 | 0 | 1 | 5 | 5 | 10 | 6 | 4 | 9 | **40** |
| Ion 22 | 0 | 1 | 5 | 6 | 10 | 6 | 6 | 9 | 7 | **50** |

### 3.2 Manylion yr ysgolion sy'n destun y cynnig.

| Ysgol | Categori | Categori Iaith | Ystod Oedran | Capasiti'r Ysgol 2025 | Nifer Derbyn 2025/26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Clydau<br>Tegryn<br>Llanfyrnach<br>SA35 0BE | Cymunedol | Categori 3 Cyfrwng Cymraeg | 4-11 | 71 | 10 |

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y tabl isod wedi'i thynnu'n bennaf o https://www.llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw ac mae'n darparu data cymharol rhwng ysgol, awdurdod lleol (ALl) a Chymru. Nid oedd data 2025 wedi'i lanlwytho i fyysgolleol ar adeg paratoi'r ddogfen hon ac fe'i cafwyd o CYBLD 2025 (Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion).

| **YSGOL CLYDAU** | **Cymru** | **ALl** | **Ysgol** | **Ysgol** |
|---|---|---|---|---|
| | | **2024** | | **2025** |
| **Prydau Ysgol am Ddim - Cyfartaledd 3 blynedd (Grŵp Prydau Ysgol am Ddim)** | 22.9% | 17.9% | 8.8% | 5.71% |
| **Presenoldeb**<br>Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd gan ddisgyblion o oedran ysgol statudol yn ystod y flwyddyn academaidd. | 92.2% | 91.9% | 92.4% | 89.9% (hyd yn hyn) |
| **% Disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)** | 7.1% | 2.4% | Dim | Dim |
| **% Disgyblion yn yr ysgol y cofnodwyd bod ganddynt gefndir ethnig heb fod yn gefndir "Gwyn Prydeinig"** | 15.3% | 8.4% | Dim | 8.5% |
| Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 a'r rheoliadau i rym ar 1.9.21 i sicrhau bod plant a phobl ifanc 0-25 oed yn gallu cael at gymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio a'i ddiogelu'n briodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r gwaith o weithredu'r system ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) yn parhau, gyda phlant yn symud o'r system AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) i'r system ADY tan Awst 2025. Bydd anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU), sydd yn gynlluniau statudol. Efallai y bu dysgwyr ag AAA yn destun Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Ddatganiad, a ddaeth i ben ym mis Awst 2025. | | | | |
| **% Disgyblion sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol**<br>Pan fydd athro/athrawes yn nodi bod gan ddisgybl AAA, maent yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. | 3.2% | 6.6% | Dim | Dim |
| **% Disgyblion sy'n destun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy**<br>Trefn lle caiff cyngor neu gymorth eu darparu i athro gan arbenigwyr allanol er mwyn galluogi rhoi ymyriadau amgen ar waith sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir i'r disgybl drwy Weithredu gan yr Ysgol. | 2.5% | 4.2% | Dim | Dim |
| **% Disgyblion â Datganiad**<br>Mae gan blentyn AAA os oes ganddynt anawsterau dysgu sy'n ei gofyn bod darpariaeth addysgol arbennig gael ei gwneud ar eu cyfer. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn cael cryn dipyn yn fwy o anhawster i ddysgu na'r mwyafrif o blant o'r un oed, neu fod gan y plentyn anabledd | 1.0% | 0.5% | Dim | Dim |


| YSGOL CLYDAU | Cymru | ALI | Ysgol | Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| | 2024 | | | 2025 |
| sy’n gofyn am gyfleusterau gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol. | | | | |
| **CDU Ysgol** | | | | 2.8% |
| **CDU Awdurdod Lleol** | | | | Dim |

# SCHOOL CATCHMENT AREA PLAN / CYNLLUN TALGYLCH YSGOL

**(from September 2009 / o Medi 2009)**

**School Name / Enw'r Ysgol:** Ysgol Clydau

**School Number / Rhyf yr Ysgol:** 2385




Based upon the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Pembrokeshire County Council Licence No. 100023344 (2009)

'Yn seiliedig a'r Ordnance Survey chaniatad Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrrhydi © Hawlfraint y Goron. Y mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achosion sifil.' Cyngor Sir Penfro, Rhif Trwydded 100023344 (2009).

### 3.3 Capasiti'r Ysgol

Caiff capasiti ei fesur gan ddefnyddio fformiwla "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru"; nid yw hyn yn cynnwys lleoedd meithrin a disgyblion meithrin.  Mae capasiti ysgolion yn cael ei adolygu'n flynyddol a gall newid pan fydd ysgol yn newid y ffordd y mae'n defnyddio ei hadeiladau a phan fydd addasiadau i adeiladau'n digwydd.  Er mwyn cymharu capasiti a defnydd, dangosir disgyblion meithrin ar wahân ac nid ydynt yn cael eu cynnwys mewn rhagolygon o'r fath.

| Ysgol | Capasiti 2025 | |
|---|---|---|
| | Disgyblion Amser Llawn | Disgyblion Meithrin (FTE) |
| Ysgol Clydau | 71 | 0 |

### 3.4 Rhagolygon Niferoedd Disgyblion

Cynhelir ymarfer blynyddol i ragweld niferoedd disgyblion yn y dyfodol ar ôl i Lywodraeth Cymru ddilysu cyfrifiad disgyblion mis Ionawr. Cyfrifir nifer y disgyblion a ragwelir gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Pob disgybl blwyddyn 6 yn symud i ddarpariaeth uwchradd;
- Pob grŵp blwyddyn yn symud ymlaen yn gronolegol;
- Disgyblion Dosbarth Derbyn yn seiliedig ar un o'r canlynol:
    - Nifer Derbyn yr ysgol
    - Disgyblion Dosbarth Derbyn yn cael cynnig lleoedd ar y 'dyddiad cynnig' cyffredin
    - Asesiad yr ysgol ei hun yn seiliedig ar wybodaeth leol
    - Cyfartaledd derbyniadau i'r Dosbarth Derbyn dros y 5 mlynedd blaenorol.

Ar y dyddiad cau (30 Ebrill 2025) ar gyfer derbyniadau meithrin 2026, nid oedd unrhyw geisiadau.

**Niferoedd Disgyblion (Derbyn – Blwyddyn 6)**

| | Gwirioneddol | Rhagolwg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025[1] | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
| Ysgol Clydau | 35 | 32 | 27 | 28 | 28 | 31 |

**Deiliadaeth 2020-2025**

| | Gwirioneddol | Rhagolwg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
| Ysgol Clydau | 49.3% | 45.0% | 38% | 39.4% | 39.4% | 43.6% |

[1] Sylwch fod y nifer gwirioneddol a roddwyd ar gyfer 2025, sef 35 disgybl, fel yr oedd yn Ionawr 25. Mae data diweddarach o fis Medi 25 yn dangos 24 o ddisgyblion yn yr ysgol, fel yr amlinellir yn 3.1 uchod, ac mae'r data diweddaraf ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon (Tachwedd 25) yn dangos 23 o ddisgyblion yn yr ysgol.

### 3.5 Cynnyrch Disgyblion o Dai Newydd

Mae gwybodaeth am gynnyrch disgyblion posibl o dai newydd yn yr ardal yn seiliedig ar adroddiad monitro blynyddol [AMB] y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yng nghyd-destun y cynnig hwn, mae'r ymrwymiadau tai sydd naill ai'n cael eu hadeiladu neu sydd wedi'u nodi fel rhai y gellir eu cyflenwi o fewn cyfnod o bum mlynedd yn gyfystyr â thua14 o unedau. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod pob annedd yn cynhyrchu 0.15 o ddisgyblion ar gyfartaledd, byddai'r datblygiadau tai hyn yn cynhyrchu tua 2 ddisgybl.

| **Anheddiad** | **Yn Cael ei Adeiladu** | **Wedi'i Gwblhau < 5 mlynedd.** | **Cynnyrch disgyblion posibl** |
|---|---|---|---|
| Tegryn | 1 | 13 | |
| **CYFANSWM** | **1** | **13** | **2** |

Ffynhonnell:
Adroddiad Monitro Blynyddol [AMB] 2024 Cynllun Datblygu Lleol [CSP]
Adroddiad Monitro Blynyddol [AMB] 2024 Cynllun Datblygu Lleol 2 (APCAP)

Nid yw hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn tai a dylid darparu ar gyfer y cynnyrch posibl sy'n deillio ohono o fewn y capasiti presennol.

### 3.6 Adeiladau / Ystafelloedd

Mae cofnodion yn dangos yr adeiladwyd yr ysgol ym 1880 gyda rhai addasiadau wedi'u gwneud yn negawd cyntaf yr 21ain ganrif. Cyn Medi 2000, enw'r ysgol oedd Ysgol Gynradd Tegryn, ond yn dilyn uno ag Ysgol Gynradd Bwlchygroes, daeth yr ysgol yn Ysgol Clydau.

Yn yr adolygiad o gapasiti ysgolion a gynhaliwyd yn hydref 2024, roedd gan Ysgol Clydau dri sylfaen dosbarth gyda chyfanswm arwynebedd o 135.8m$^2$.

Mae'r ysgol wedi'i graddio fel "C" (Gwael) o ran ei chyflwr a "B" (Boddhaol) o ran ei haddasrwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio cyflwr gradd 'C' fel "*Gweithredol ond mae gwaith atgyweirio neu ailosod mawr yn angenrheidiol yn y tymor byr i ganolig (3 blynedd yn gyffredinol). Yn nodweddiadol, mae ysgol gradd C yn cynnwys un neu fwy o'r canlynol:*

- *Yr angen iddisodli elfennau o'r adeilad neu wasanaethau yn y tymor byr i ganolig*
- *sawl mater yn ymwneud â strwythur neu amlen yr adeilad, gwasanaethau adeiladu neu gydymffurfiaeth statudol yn amlwg, neu un mater arbennig o arwyddocaol yn amlwg.*
- *yn aml yn cynnwys problemau dynodedig gydag amlen yr adeilad (ffenestri/to ac ati), gwasanaethau adeiladu (boeleri/oeryddion ac ati),*
- *sy'n debygol o gael effeithiau mawr ar weithrediad yr adeilad, ond yn dal i ganiatáu iddo fod yn weithredol"*

Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gradd addasrwydd 'B' fel "*Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi cyflawniad effeithiol y cwricwlwm mewn rhai meysydd*".

Mae'r tir a'r adeiladau y mae’r ysgol yn eu defnyddio ym mherchnogaeth Cyngor Sir Penfro.

### 3.7 Ysgolion y gallai'r cynnig hwn effeithio arnynt.

Ystyrir y gallai'r cynnig hwn effeithio ar sawl ysgol yn yr ardal.

| Ysgol | Cyfeiriad |
|---|---|
| Ysgol Bro Preseli | Crymych, SA41 3QH |
| Ysgol Cilgerran | Cilgerran, Ceredigion, SA43 2SB |
| Ysgol Bro Brynach | Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0EL |
| Ysgol Beca | Efailwen, Clunderwen, SA66 7UX |
| Ysgol Hafodwenog | Trelech, Caerfyrddin, SA33 6RU |
| Ysgol y Ddwylan | Heol Newydd, Castellnewydd Emlyn, SA38 9PT |
| Ysgol Brynconin | Llandysilio, Clunderwen, SA66 7TF |
| Ysgol Maenclochog | Maenclochog, Clunderwen, SA66 7LB |
| Ysgol Eglwyswrw | Eglwyswrw, Crymych, SA41 3SN |
| Ysgol Llandudoch | Llandudoch, Aberteifi, SA43 3ET |

Mae gwybodaeth am yr ysgolion hyn wedi'i chynnwys yn **Atodiad 1**.

### 3.8 Cryfderau a Gwendidau'r sefyllfa bresennol

| Ysgol | Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|---|
| **Ysgol Clydau** | • Dim gofyniad am y broses trefniadaeth ysgolion statudol<br>• Cadw ysgol wledig leol<br>• Bodloni dymuniadau rhai rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol. | • Ddim yn mynd i'r afael â chyflwr ac addasrwydd cyffredinol Ysgol Clydau<br>• Ddim yn mynd i'r afael â’r nifer sylweddol o leoedd dros ben<br>• Ddim yn lleihau cost refeniw i'r Cyngor. |

# 4. Safonau Cyfredol yr Ysgol

Mae dyfarniadau diweddaraf Estyn ac adroddiad yr Ymgynghorydd Gwella Ysgolion ar gyfer yr ysgol sy'n destun y cynnig fel a ganlyn.

### 4.1 Arolygiad Estyn

Cafodd yr ysgol ei harolygu ym mis Medi 2023; mae trosolwg o'r adroddiad a'r argymhellion i'w gweld isod; gall ymgyngoreion ddarllen yr adroddiad llawn ar wefan Estyn.

**Overview**

Ysgol Clydau is a happy, caring and welcoming community. There is a clear emphasis on respecting others and ensuring the best possible standards of well-being for the school's pupils and staff. Most pupils behave very well and treat each other and adults extremely respectfully and politely. The school has a strong culture of safeguarding and, as a result, pupils feel safe and enjoy their time at the school.

Many pupils make suitable progress during their time at the school, for example when developing their language, numeracy and digital skills. They apply these skills appropriately across a range of contexts. Most pupils make good progress in their creative and physical skills and show robust attitudes towards physical activities.

Teachers and assistants foster a very homely and supportive working relationship with pupils. They are good language models and support pupils to recall previous learning effectively. Staff provide a curriculum that makes purposeful use of the local area and engages the interest and ignites the curiosity of nearly all pupils. At times, teachers do not provide activities that challenge a few pupils to achieve to the best of their ability, particularly those who are more able. When pupils are given an opportunity to do so, they respond positively to feedback and improve their work purposefully. However, feedback for pupils does not focus specifically enough on important aspects for improvement. As a result, too often, pupils are not aware of the next steps in their learning.

The headteacher has a clear vision for the school that prioritises equal access to well-being, happiness and the best learning experiences for all pupils. This vision is shared purposefully with the school's pupils, staff, parents and governors. The headteacher is supported in a very dedicated way by a small team of staff. Leaders have an appropriate understanding of the school's strengths and areas for improvement. The governing body are proud of their school and passionate about their responsibilities. They provide the school's leaders and staff with purposeful support.

**Recommendations**

R1 Ensure that teachers' feedback helps pupils to improve their work

R2 Ensure appropriate challenge for all pupils

## 4.2 Adroddiad yr Ymgynghorydd Gwella Ysgolion

### Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Cafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf gan Estyn ym mis Medi 2023. Isod ceir crynodeb o'u canfyddiadau ynghyd â chrynodeb o adroddiad yr Ymgynghorwyr Gwella ar gyfer 2024/25.

- Mae ymagwedd bron bob disgybl at ddysgu yn gadarnhaol. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi am gyfnodau estynedig ac yn ymroi i'r dysgu yn gyflym wrth gyrraedd y dosbarth.
- Mae'r ysgol yn cynnal ffocws cryf iawn ar les, sy'n cefnogi disgyblion agored i niwed ac yn annog pob disgybl i gyfrannu eu syniadau am eu dysgu.
- Mae ethos cyfeillgar, cynhwysol a chroesawgar yn cyfrannu'n gadarn at gefnogi disgyblion i fod yn falch o berthyn i un teulu mawr. Mae pwyslais cryf ar barchu eraill yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu disgyblion meddylgar sy'n ymddwyn yn dda iawn ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned
- Mae bron pob disgybl yn gwerthfawrogi bod oedolion yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt.
- Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu sgiliau llafaredd Cymraeg, gan ddod yn siaradwyr hyderus.
- Mae sgiliau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud trwy'r ysgol
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn briodol ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas gyda'u sgiliau mathemategol.
- Mae sgiliau digidol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol.
- Mae bron pob disgybl yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol
- Mae bron pob disgybl yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesegol ac egwyddorol
- Roedd presenoldeb disgyblion ym mis Ionawr 2025 yn 92.23%, mae'r ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion Sir Benfro yn y cyfnod hwnnw.

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol yr hyn sy'n cyfateb i 2.0 o athrawon ar gyfer y 33 disgybl sydd ar y gofrestr. Mae gan arweinydd y safle ymrwymiad addysgu o 0.8 (4 diwrnod yr wythnos). Mae'r ysgol yn cael cefnogaeth arweinyddiaeth strategol o 0.2 (1 diwrnod yr wythnos) gan Ysgol Bro Preseli.

Mae ymweliadau Estyn ac ymweliadau ALI rheolaidd yn cydnabod:

- Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn sgil penderfyniad y pennaeth i ymddiswyddo'n sydyn ym mis Mai 2024, mae'r corff llywodraethu wedi creu cynllun wrth gefn cryf, gan rannu arbenigedd staff arweinyddiaeth Ysgol Bro Preseli a phenodi arweinydd safle ymroddedig a galluog.
- Mae'r arweinydd safle presennol a'r athro dosbarth newydd wedi creu amgylchedd cynnes a gofalgar yn yr ysgol.
- Mae athrawon a chynorthwywyr yn meithrin perthynas waith gartrefol a chefnogol iawn gyda disgyblion.
- Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r safonau lles uchaf posibl iddynt.
- Mae'r ysgol yn dangos arfer addysgegol sefydledig ac effeithiol iawn ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar, mae'r disgyblion hyn yn datblygu lefelau uchel o annibyniaeth ac yn gwneud defnydd sylweddol o ardal awyr agored sydd ag

adnoddau da. Mae'r arfer effeithiol hwn wedi'i rannu ag ysgolion eraill ar sawl achlysur.

- Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn yr ardal leol, gydag ymdeimlad cryf o "gynefin", mae hyn yn adlewyrchu anghenion ei disgyblion a'r gymuned.
- Mae arweinwyr yn ymroddedig iawn ac yn gweithio'n galed wrth gyflwyno cwricwlwm sy'n ddiddorol, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn talu sylw priodol i gyd-destun yr ardal leol.
- Mae athrawon yn dangos gwybodaeth dda am y cwricwlwm ac yn darparu gwersi diddorol
- Mae'r holl staff yn fodelau iaith da ac yn cefnogi disgyblion i gofio dysgu blaenorol yn effeithiol.
- Ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio rhai disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai hynny sy'n fwy abl
- Mae cysylltiad rhesymegol rhwng y nodau a amlinellir yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol a gweithgareddau dysgu proffesiynol;
- Mae gan arweinwyr a llywodraethwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.
- Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n ofalus, maen nhw'n sicrhau bod adnoddau dysgu addas ar gyfer pob dosbarth.

Ar y cyfan, mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus fel uned broffesiynol gref gan ddangos gwytnwch ac ymrwymiad yn ystod cyfnod heriol. Maent wedi llwyddo i hyrwyddo amgylchedd dysgu effeithiol gan sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd parhaus.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

- Mae darpariaeth ysgol amgen addas ar gael mewn ysgolion cyfagos sydd â chapasiti a lle digonol, o ansawdd cyfatebol o leiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol a rhagamcanol Ysgol Clydau.
- Mae digon o gapasiti mewn ysgolion cyfagos o'r un categori iaith a chymeriad crefyddol ag Ysgol Clydau i ddarparu ar gyfer disgyblion wedi'u dadleoli.
- Mae llai na hanner (17, 47.2%) o blant y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol, gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn mynychu ysgolion cyfagos eraill. Yn 2024, roedd y rhan fwyaf ddisgyblion Ysgol Clydau yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch.
- Ar hyn o bryd mae chwe disgybl yn derbyn Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim i Ysgol Clydau. Er y byddai bron pob disgybl yn gymwys am cludiant ysgol i ysgolion cyfagos amgen, ni fyddai unrhyw siwrneiau yn fwy na 45 munud.

**Adnoddau ar gyfer addysgu a goblygiadau ariannol eraill**

- Mae'r ysgol wedi dioddef gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf ac ni ragwelir y bydd unrhyw newid sylweddol yn y sefyllfa hon. Mae wedi bod mewn sefyllfa o fod â lleoedd dros ben sylweddol ers 2022, a bydd gweithredu'r cynnig hwn yn arwain at leihau'r lleoedd dros ben yn yr ardal.
- Yn 2024/25 derbyniodd yr ysgol gyllid a oedd yn cyfateb i £5,415 y disgybl. Y cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws pob ysgol yn Sir Benfro oedd £4,110. Rhagwelir y bydd unrhyw arbedion net yn cyfrannu at yr arbedion angenrheidiol yn y gyllideb addysg yn y blynyddoedd ariannol i ddod mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer y Cyngor.

# 5. Y Cynnig

## 5.1 Y Cynnig

Mae cynnig y Cyngor fel a ganlyn:

> ***Bod y Cyfarwyddwr Addysg yn cael ei awdurdodi i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Clydau.***

Yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd y cynnig hwn yn arwain at drosglwyddo'r disgyblion sydd ar y ar gofrestr yn Ysgol Clydau i Ysgol Preseli yng Nghrymych, neu yn amodol ar fynegiant o ddewis rhieni, i unrhyw ysgol arall. Cynigir bod dalgylch Ysgol Clydau'n cael ei gynnwys fel rhan o ddalgylch estynedig Ysgol Bro Preseli, a bydd hyn yn effeithio ar y meini prawf derbyniadau ysgol a hawl i gludiant i'r ysgol yn yr ardal.

Mae Ysgol Bro Preseli yn ysgol 3-19 Categori 3 (cyfrwng Cymraeg) sydd wedi'i lleoli yng Nghrymych, tua 4.2 milltir o Ysgol Clydau. Fel ysgol 'pob oed', gall Ysgol Bro Preseli sicrhau cysondeb o ran ymagwedd at addysgeg ac addysgu a dilyniant di-dor o brofiadau dysgu i ddisgyblion rhwng 3 a 19 oed. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau a chodi safonau ac yn galluogi defnyddio un system i olrhain cynnydd disgyblion a datblygiad ystod eang o sgiliau drwy gysylltiadau traws-gyfnod, h.y. yn unol â'r Genhadaeth Genedlaethol sy'n siapio dyfodol system addysg Cymru.

Yn amodol ar gymeradwyaeth a dewis rhieni, cynigir y bydd Ysgol Clydau yn cau ar 31 Awst 2026, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli ddechrau blwyddyn academaidd 2026/27.

Yng nghyd-destun y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig, mae Ysgol Clydau wedi'i dynodi'n 'ysgol wledig' ar hyn o bryd.

### 5.1.2 Manteision ac Anfanteision y Cynnig

| Cau Ysgol Clydau gyda'r disgyblion, yn amodol ar ddewis rhieni, yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli | |
|---|---|
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| – Mae Ysgol Bro Preseli yn ysgol 3-19 oed ac mae i hyn fantais o ran dileu'r pontio o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd. Mae pob disgybl yn hysbys i'r holl staff addysgu a chymorth o'r adeg y maent yn dechrau yn yr ysgol ac mae hyn yn cefnogi eu lles. Ar ben hynny, mae ysgol 'pob oed' yn darparu ymagwedd gyson tuag at addysgeg ac addysgu a phrofiad dysgu di-dor,<br>– Bydd profiadau cwricwlwm yn cael eu cynllunio i sicrhau parhad wrth i'r disgyblion symud trwy'r ysgol. Bydd hyn yn galluogi'r ysgol i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau a chodi safonau gan arwain at ddefnyddio un system i olrhain cynnydd disgyblion a datblygu ystod eang o sgiliau trwy gysylltiadau traws-gyfnod.<br>– Lleihau lleoedd dros ben yn yr ardal<br>– Gellir derbyn holl ddisgyblion Ysgol Clydau i Ysgol Bro Preseli heb yr angen am fuddsoddiad cyfalaf<br>– Incwm posibl sy'n deillio o werthu neu brydlesu safle ysgol Clydau, (e.e. fel ased cymunedol)<br>– Mae nifer sylweddol o ddisgyblion dalgylch Clydau eisoes yn mynychu Ysgol Bro Preseli<br>– Dileu ysgol o gyflwr Gradd 'C' o ystâd ysgolion Sir Benfro. | – Ddim yn cadw ysgol wledig<br>– Ddim yn bodloni dymuniadau rhai rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol sydd am i'r ysgol gael ei chadw.<br>– Proses statudol i gau'r ysgol yn ofynnol – cymeradwyaeth y Cyngor yn angenrheidiol.<br>– Cost refeniw ychwanegol i CSP o ganlyniad i gostau cludiant ysgol ychwanegol |

### 5.1.3 Effaith y cynnig

| Cau Ysgol Clydau gyda'r disgyblion, yn amodol ar ddewis rhieni, yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli |
|---|
| **Safonau a chynnydd cyffredinol, o ran grwpiau penodol ac o ran sgiliau; lles ac agweddau at ddysgu.** |
| Byddai'r cynnig yn sicrhau bod safonau a chynnydd disgyblion yn parhau i wella, o ganlyniad i fwy o gyfleoedd i ddatblygu dilyniant grwpiau o ddysgwyr a sgiliau mewn lleoliad ysgol 3-19 oed.<br><br>Gellir gwella lles ac agweddau at ddysgu mewn ysgol 3-19, trwy ddileu'r pwyntiau pontio. |
| **Ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a darpariaeth sgiliau.** |
| Byddai'r cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i staff addysgu a chymorth ddatblygu'n broffesiynol, gan alluogi mwy o gyfleoedd i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu eu harbenigedd ymhellach.<br><br>Byddai'n galluogi cwricwlwm priodol parhaus a chyfleoedd allgyrsiol ehangach, a fyddai'n gwella presenoldeb a chanlyniadau addysgol. |
| **Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu.** |
| Byddai'n rhoi cyfle i'r pennaeth ddyrannu tasgau arweinyddiaeth allweddol, megis amddiffyn plant, llythrennedd, rhifedd, anghenion addysgol arbennig ac ati, i fwy o staff ac ar draws cyfnodau addysg. |
| **Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwella, dysgu proffesiynol, a'r defnydd o adnoddau.** |
| Byddai'n creu cyfleoedd arweinyddiaeth i staff eraill, ac i eraill arbenigo mewn meysydd allweddol, a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg a'r canlyniadau.<br><br>Byddai'n caniatáu mynediad at ystod ehangach o gyfrifoldebau i staff addysgu a chymorth, gan gynnwys: gwell rhagolygon gyrfa; gwell cydlyniad cwricwlwm; y cyfle i addysgu ar draws ystod oedran ehangach ac ar draws gwahanol gyfnodau; ystod ehangach o arbenigedd, a gwell cyfleoedd i ryngweithio a chydweithredu. |
| **Effaith debygol y cynigion ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn.** |
| Bydd Ysgol Bro Preseli yn parhau i allu darparu'r cwricwlwm llawn i bob dysgwr.<br><br>Byddai'n darparu'r amodau a fyddai'n galluogi cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol e.e. cyflwyno ieithoedd tramor modern, i ddiwallu anghenion disgyblion gan wneud hynny mewn ffyrdd a fyddai'n hyfyw ac yn gynaliadwy dros y tymor hwy; |

| |
|---|
| Byddai'n gwella amrywiaeth ac ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael er budd pob disgybl, a byddai'n galluogi mwy o barhad yn y gefnogaeth a roddir i grwpiau o ddisgyblion agored i niwed.<br><br>Ar ben hynny, byddai'n creu cyfleoedd ar gyfer arbedion ariannol posibl ar strwythurau staffio a phrynu gwasanaethau, sydd yn cronni mewn ysgolion mwy. |
| **I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a sut y byddai'n ehangu neu'n cwtogi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg.** |
| Bydd y ddarpariaeth yn Ysgol Bro Preseli yn parhau i gefnogi'r amcanion a nodir yn y CSCA. Yn benodol mae canlyniad 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall; canlyniad 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, a chanlyniad 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, i gyd yn feysydd y disgwylir iddynt gael eu cefnogi trwy'r cynnig hwn. |

## 5.2 Gwybodaeth Allweddol am yr Ysgol

<table>
<tr><td>Lleoliad</td><td>Ysgol Bro Preseli<br><br>Crymych, SA41 3QH</td></tr>
<tr><td>Categori</td><td>Ysgol Gymunedol</td></tr>
<tr><td>Trefniadau Derbyn</td><td>Bydd Cyngor Sir Penfro yn parhau i fod yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol ac felly bydd ei bolisi derbyn a'i feini prawf gordanysgrifio yn berthnasol. Bydd yr ysgol yn parhau i dderbyn disgyblion o'r ddau ryw ac ni fydd darpariaeth ar gyfer dewis yn ôl dawn na gallu.<br><br>Fel ysgol 3-19 oed 'pob oed', mae gan Ysgol Bro Preseli niferoedd derbyn gwahanol ar gyfer camau cynradd ac uwchradd yr ysgol.<br><br>Yn amodol ar ddewis rhieni, byddai pob disgybl Meithrin – Blwyddyn 5 sy'n mynychu Ysgol Clydau ar adeg gweithredu'r cynnig yn trosglwyddo i'r ysgol newydd yn awtomatig. Fodd bynnag, os oes mynegiadau o ffafriaeth rhieni ar gyfer unrhyw ysgol arall, yna bydd angen gwneud y rhain trwy geisiadau ar wefan y Cyngor yn unol â'r polisi derbyn cyhoeddedig.<br><br>Bydd gofyn i rieni disgyblion/gofalwyr plant Blwyddyn 6 gyflwyno ceisiadau am le ysgol uwchradd drwy wefan y Cyngor yn unol â'r polisi derbyn cyhoeddedig.</td></tr>
<tr><td>Trefniadau Llywodraethu</td><td>Fel rhan o'r cynnig i gau Ysgol Clydau, byddai corff llywodraethu'r ysgol yn dod i ben. Fodd bynnag, byddai'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer Ysgol Bro Preseli, neu unrhyw ysgol arall y byddai disgyblion wedi'u dadleoli'n ei mynychu, yn parhau ar ffurf y corff llywodraethu perthnasol. Mae'n annhebygol y byddai angen diwygio Offeryn Llywodraethu unrhyw ysgol olynol o ganlyniad i'r cynnig hwn.</td></tr>
<tr><td>Ystod Oedran</td><td>3-19</td></tr>
<tr><td>Capasiti / Nifer Derbyn</td><td>Bydd capasiti a Nifer Derbyn yr ysgol fel a ganlyn gyda'r rhagdybiaeth na fydd yno unrhyw ddosbarth symudol.<br><br><table><tr><th></th><th>Capasiti</th><th>Nifer Derbyn</th></tr><tr><td>Cynradd</td><td>210</td><td>30</td></tr><tr><td>Uwchradd</td><td>955</td><td>154</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>Nifer y Lleoedd Meithrin</td><td>11 FTE</td></tr>
<tr><td>Categori Iaith</td><td>Categori 3 (Cyfrwng Cymraeg)</td></tr>
<tr><td>Ysgol amgen arfaethedig</td><td>Cynigir y bydd disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli yn cael eu derbyn i'r cam cynradd yn yr ysgol honno.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Darpariaeth AAA</td><td>Roedd y dadansoddiad o'r ddarpariaeth ADY yn Ysgol Bro Preseli ar gyfer PLASC 2025 fel a ganlyn:
<table>
<tr><th>Cam ADY</th><th>Nifer</th><th>%</th></tr>
<tr><td>CDU Ysgol</td><td>17</td><td>1.82%</td></tr>
<tr><td>CDU yr ALI</td><td>3</td><td>0.32%</td></tr>
<tr><td>Datganiad</td><td>1</td><td>0.11%</td></tr>
<tr><td>Dim darpariaeth</td><td>911</td><td>97.75%</td></tr>
</table>
Bydd yr ysgol yn parhau i gynnal darpariaeth lloeren cyfrwng Cymraeg o Ysgol Arbennig Portfield - Y Porth.
Darperir cyfleoedd i ddisgyblion sy'n mynychu'r Porth fynychu gwersi prif ffrwd yn Ysgol Bro Preseli gydag amserlenni pwrpasol ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno cael mynediad at wersi prif ffrwd. </td></tr>
<tr><td>Cludiant Ysgol</td><td> Bydd trefniadau cludiant yn unol â’r gyfraith a pholisi'r Cyngor.
Darperir cludiant am ddim yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru – Canllawiau Gweithredol a pholisi cludiant ysgolion Cyngor Sir Penfro. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n byw yn Sir Benfro neu yr ystyrir bod gan Gyngor Sir Penfro gyfrifoldeb amdanynt. Bydd y Cyngor yn darparu cludiant lle mae plentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol addas agosaf, neu yn achos plentyn sy'n cael addysg uwchradd sy’n byw dros dair milltir o'r ysgol addas agosaf.
Darperir cludiant i'r ysgol dalgylch sydd wedi'i dynodi gan yr Awdurdod i wasanaethu cyfeiriad cartref y disgybl, neu i'r ysgol addas agosaf fel y penderfynir gan y Cyngor.
Ni fydd y Cyngor yn darparu cludiant nac yn gwneud unrhyw gyfraniad tuag at gostau cludiant disgyblion sy'n cael eu derbyn o ganlyniad fynegiant rhiant o ffafriaeth i ysgol heblaw’r ysgol agosaf neu ysgol y dalgylch. Yn yr amgylchiadau hyn mae teuluoedd yn gyfrifol am wneud eu trefniadau cludiant eu hunain ac am yr holl gostau cludiant.
Mae gan Ysgol Bro Preseli dri dalgylch sy'n gwasanaethu'r gwahanol gyfnodau o ddarpariaeth yn yr ysgol fel a ganlyn:
<ol>
<li>Dalgylch cynradd – mae t. 25 yn dangos dalgylch cynradd presennol Ysgol Bro Preseli, ochr yn ochr â'r dalgylch estynedig arfaethedig, a fyddai'n cwmpasu dalgylch presennol Clydau;</li>
<li>Dalgylch uwchradd – yn unol â dalgylch presennol Ysgol Bro Preseli a ddarperir ar dudalen 26;</li>
</ol></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | 3. Derbyniadau i'r Chweched Dosbarth – Sir Benfro i gyd. |
| **Ysgolion Amgen** | Er y bwriedir mai Ysgol Bro Preseli fydd yr ysgol ddynodedig i wasanaethu'r ardal, cydnabyddir y gall rhieni fynegi ffafriaeth am ysgol arall. Mae'r ysgolion a restrir ym Mharagraff. 3.7 o'r ddogfen hon yn cynrychioli'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu hystyried gan rieni/gofalwyr fel ysgolion amgen. |

## 5.3 Rhagamcanion Disgyblion

Mae'r niferoedd disgyblion rhagfynegol a amlinellir isod yn adlewyrchu poblogaeth yr ysgol arfaethedig os caiff y cynnig ei weithredu. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar yr ymarfer rhagfynegi a gynhaliwyd ar yr ysgolion presennol yn 2025, ond wedi'u haddasu i ystyried nifer gwirioneddol y disgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol ym mis Medi 2025. Maent hefyd yn cymryd yn ganiataol bod pob disgybl ar y gofrestr yn Ysgol Clydau yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli.

| | **Derbyniad - Blwyddyn 6** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Rhagolwg** | | | | | | |
| | **2025** | **2026** | **2027** | **2028** | **2029** | **2030** | **2031** | **2032** |
| Ysgol Clydau | 35 | 32 | 27 | 28 | 28 | 31 | 30 | 27 |
| Ysgol Bro Preseli | 158 | 160 | 161 | 165 | 168 | 168 | 172 | 175 |
| Ysgol Bro Preseli yn dilyn gweithredu'r cynnig | | 192 | 188 | 193 | 196 | 199 | 202 | 202 |

## 5.4 Dalgylch yr Ysgol

Dalgylch ysgol yw'r ardal ddaearyddol y mae'r Cyngor Sir yn dynodi y dylai ysgol ei gwasanaethu. Mae'r Cyngor yn defnyddio dalgylchoedd:

- fel offeryn cynllunio ar gyfer rhagweld y galw am ddarpariaeth a'i chynllunio i ateb y galw am leoedd ysgol;
- i flaenoriaethu derbyniad disgyblion i ysgolion sydd wedi'u gordanysgrifio.
- fel elfen o'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol i drefnu cludiant ysgol ac i reoli costau;
- i alluogi ysgolion i uniaethu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu;
- fel bod rhieni'n gwybod pa ysgol yw eu hysgol leol


Nodir dalgylch Ysgol Clydau ar dudalen 10 o'r ddogfen hon; fodd bynnag, os gwneir penderfyniad i gau'r ysgol, mae'n bwysig bod yr ardal berthnasol yn cael ei diffinio fel rhan o ddalgylch ysgol arall neu ysgolion eraill. Gan ei bod mor agos at Ysgol Bro Preseli, cynigir y dylid cynnwys dalgylch Clydau yn gyfan gwbl fel rhan o ddalgylch Ysgol Bro Preseli.

Mae map sy'n dangos maint y dalgylch cynradd arfaethedig i’w weld isod, ynghyd â map yn dangos dalgylch uwchradd presennol Ysgol Bro Preseli, a fyddai'n aros fel y mae.

## Merged Preseli and Clydau Primary School Catchments

Crëwyd: 7 Tachwedd 2025
Created: 7 November 2025

Graddfa / Scale
(A3)
1:70,000




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 OS AC0000812127 / © Crown copyright and database rights 2025 OS AC0000812127

# Ysgol Preseli Catchment

Crëwyd: 7 Tachwedd 2025
Created: 7 November 2025

Graddfa / Scale
(A3)
1:150,000



### 5.5 Asesiadau o Effaith

Mae'r canlynol yn cynrychioli asesiad y Cyngor o effaith y cynnig ar y gymuned, cydraddoldeb, y Gymraeg, cludiant a staff.

#### 5.5.1 Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae asesiad o'r effaith ar y gymuned ynghlwm yn **ATODIAD 3**. Fodd bynnag, bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i'r ymgynghoriad yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a fydd yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.

#### 5.5.2 Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r cynnig yn annhebygol o arwain at unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r asesiad llawn ynghlwm fel **ATODIAD 4.**

#### 5.5.3 Effaith ar y Gymraeg

Mae asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ynghlwm yn **ATODIAD 5**. Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg, o ystyried mai'r cynnig yw trosglwyddo'r holl blant o Ysgol Clydau i Ysgol Bro Preseli, y ddwy ohonynt yn ysgolion Categori 3 (cyfrwng Cymraeg).

#### 5.5.4 Effaith ar Gludiant

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i asesu anghenion teithio dysgwyr o dan 19 oed. Yn ychwanegol at y plant hynny sy'n gymwys am gludiant am ddim oherwydd eu bod yn bodloni'r meini prawf pellter rhwng y cartref a'r ysgol, mae'r Cyngor o dan rwymedigaeth gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mewn perthynas â'r cynnig a gynhwysir yn y ddogfen hon, asesir llwybrau cerdded i ysgolion i sicrhau y gall dysgwyr gyrraedd eu cyrchfan yn ddiogel. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig i bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, ond fel yr amlinellir mewn mannau eraill yn y ddogfen ymgynghori hon, rhagwelir y bydd dalgylch cynradd Ysgol Bro Preseli yn cael ei ymestyn i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Clydau yn ei gyfanrwydd.

#### 5.5.5 Effaith ar Staff

Mae'n anochel y bydd y cynnig yn effeithio ar amrywiol staff addysgu a staff a heb fod yn staff addysgu.

Felly, mae staff ac undebau llafur cydnabyddedig yn ymgyngoreion statudol i'r ymgynghoriad hwn. Bydd eu barn yn cael ei hystyried ynghyd ag ymgyngoreion statudol eraill yn y cam hwn yn y broses. Yn ddiweddarach yn y broses, pe bai'r Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig hwn, byddai ymgynghoriad pellach yn digwydd gyda'r staff yr effeithir arnynt ac undebau llafur cydnabyddedig ynghylch effaith y penderfyniad hwn a'r camau nesaf.

### 5.6 Cyllid

O'r pwynt y bydd y Cyngor yn cymeradwyo ei gyllideb flynyddol, cymhwysir fformiwla ariannu i'r Gyllideb Ysgolion Lleol i bennu'r cyllid sy'n cael ei ddirprwyo i bob ysgol, h.y. y cyllid a reolir yn uniongyrchol gan gyrff llywodraethu ar gyfer gwariant refeniw. Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i 70% o'r cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion unigol gael ei ddosbarthu yn unol â ffactorau a arweinir gan ddisgyblion. Mae gan awdurdodau ddisgresiwn i ddosbarthu'r 30% sy'n weddill ar sail amrywiaeth o ffactorau fel y gallant ystyried amgylchiadau ysgol unigol. Caiff manylion am fformiwla gyllido ysgolion eu cyhoeddi'n flynyddol fel rhan o Ddatganiad Cyllideb Adran 52.

### 5.6.1 Costau disgyblion

Mae'r cyllid ar gyfer Ysgol Clydau fel a ganlyn:

| | 2025/26 | | |
|---|---|---|---|
| | **Disgyblion Ionawr 2025** | **Cost fesul disgybl (net o AAA)** | **Cost gyfartalog fesul disgybl (net o AAA) – pob ysgol** |
| | FTE | £ | £ |
| Ysgol Clydau | 35 | £6,756 | £5,265 |

*Noder: Yn seiliedig ar Ddatganiad Cyllideb Addysg 2025/26 (Adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998)*

### 5.6.2 Arbedion Refeniw

Ar sail cynnig y Cyngor i gau Ysgol Clydau ac, yn amodol ar ddewis rhieni, bod pob disgybl yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli, gellir gwneud y rhagdybiaethau canlynol mewn perthynas ag arbedion refeniw:

| | **Cyllid 25/26** | | | **Arfaethedig** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgol Clydau** | **Ysgol Bro Preseli** | **CYFANSWM** | **Ysgol Bro Preseli** | **Gwahaniaeth** |
| **Disgyblion FTE** | 35 | 170.5 | 205.5 | 205.5 | - |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| **Cyllid** | **236,433** | **818,163** | **1054596** | **925,229** | **-129367** |

Sylwch y bydd y ffigurau uchod yn amrywio yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol a nifer y disgyblion. Yn ogystal, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys costau cludiant a gaiff eu hamlygu yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (gweler atodiad 6)

### 5.6.3 Buddsoddiad Cyfalaf

Ni fydd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn codi'n uniongyrchol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Fodd bynnag, mae Ysgol Bro Preseli wedi'i chynnwys fel rhan o Raglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'r Cyngor gyda buddsoddiad wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â chyflwr nifer o adeiladau gwreiddiol yr ysgol uwchradd; ar ben hynny, ac i gydnabod statws yr ysgol fel ysgol 'pob oed', bydd cyswllt corfforol yn cael ei greu rhwng y cyfnod cynradd presennol a gweddill yr ysgol.

### 5.6.4 Teitl y tir a'r adeiladau

Mae teitl tir ac adeiladau Ysgol Clydau yn perthyn i Gyngor Sir Penfro. Mae Canolfan Clydau, canolfan gymunedol boblogaidd, wedi'i chyd-lleoli ar safle'r ysgol ac mae'r Cyngor yn ei phrydlesu i Ganolfan Clydau.

### 5.7 Risgiau a Gwrth Fesurau

| Risg | | Gwrth Fesur |
|---|---|---|
| 1 | Safonau disgyblion yn gostwng | Mae’r ysgol amgen (Ysgol Bro Preseli) yn gymaradwy o leiaf ag Ysgol Clydau o ran safonau ysgol.<br>Gellir derbyn holl ddisgyblion Ysgol Clydau i Ysgol Bro Preseli heb yr angen am fuddsoddiad cyfalaf |
| 2 | Methu â chael y cymeradwyaethau angenrheidiol gan y Cyngor a/neu fethu â chydymffurfio â’r drefn briodol. | - Sicrhau bod yr holl opsiynau'n cael eu hystyried yng ngoleuni Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.<br>- Sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddyrannu i gyflawni'r broses.<br>- Ymgynghori ag ymgyngoreion statudol priodol. |
| 3 | Mae'n rhaid i ddisgyblion deithio’n bellach i'r ysgol | - Bydd trefniadau cludiant yn unol â'r gyfraith a pholisi'r Cyngor.<br><br>Darperir cludiant am ddim yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru – Canllawiau Gweithredol a pholisi cludiant ysgolion Cyngor Sir Penfro. |
| 4 | Rhieni a chymuned yn gwrthwynebu'r cynnig. | • Mae'r holl fanylion perthnasol ynglŷn â'r status quo a'r cynnig wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon – mae hyn er mwyn sicrhau bod yr holl ymgyngoreion yn gwbl gyfarwydd â'r wybodaeth berthnasol. Mae adran 'Cwestiynau Cyffredin' wedi'i chynnwys fel rhan o'r Ddogfen Ymgynghori hon a rhoddir digon o gyfle i ofyn cwestiynau.<br>• Sicrhau bod yr holl bryderon arwyddocaol a godir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ymateb priodol fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori dilynol ac yn cael eu rhannu gydag aelodau'r Cyngor i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau. |

# 6. Opsiynau Amgen a Ystyriwyd

### 6.1 Opsiynau amgen

Mae asesiadau o opsiynau amgen wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon fel a ganlyn:

- Yr effaith debygol ar Ansawdd a Safonau mewn Addysg – gweler **ATODIAD 6**.
- Yr effaith debygol ar y gymuned – gweler **ATODIAD 3**.
- Effaith debygol gwahanol drefniadau teithio – gweler Para. 1.4 o **ATODIAD 6**.

Mae adran 5 y ddogfen hon yn amlinellu cynnig y Cyngor, h.y. yr opsiwn a ffefrir. Fodd bynnag, amlinellir manteision ac anfanteision yr opsiynau amgen a ystyrir fel rhan o ddatblygu'r cynnig hwn isod.

| Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Cadw'r status quo, h.y. Ysgol Clydau yn aros fel endid ar wahân, ond gyda chydweithrediad parhaus ag Ysgol Bro Preseli. | – Dim gofyniad am y broses trefniadaeth ysgolion statudol<br>– Cadw ysgol leol, a ddiffinnir fel ysgol wledig<br>– Bodloni dymuniadau rhai rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol. | – Anallu tebygol i recriwtio pennaeth<br>– Byddai gan y pennaeth gyfrifoldebau ystafell ddosbarth arwyddocaol yn ogystal â chyfrifoldebau arwain a rheoli.<br>– Ddim yn mynd i'r afael â'r nifer sylweddol o leoedd dros ben<br>– Ddim yn lleihau costau refeniw i'r Cyngor.<br>– Ddim yn datrys pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol yr ysgol. |
| Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Clydau drwy ffurfio Ffederasiwn newydd | – Manteisio ar drefniadau cydweithredu sydd eisoes wedi'i sefydlu rhwng Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Clydau<br>– Cadw ysgolion lleol a'u hunaniaeth<br>– Yn darparu mwy o hyblygrwydd ariannol o fewn y Ffederasiwn i gyfuno adnoddau<br>– Gall arwain at fwy o allu i gadw disgyblion o fewn yn ardal Clydau, h.y. peidio â cheisio lleoedd ysgol y tu allan i'r sir | – Mae angen proses statudol i sefydlu Ffederasiwn newydd<br>– Ddim yn mynd i'r afael â'r nifer sylweddol o leoedd dros ben<br>– Ddim yn lleihau costau refeniw i'r Cyngor.<br>– Ddim yn datrys pryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol yr ysgol. |

| Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
| --- | --- | --- |
| Rhoi'r gorau i Ysgol Clydau, ond cadw safle'r ysgol fel safle lloeren i Ysgol Bro Preseli. Ehangu dalgylch Ysgol Bro Preseli i gynnwys dalgylch Clydau. | – Cadw presenoldeb ysgol leol, h.y. fel rhan o Ysgol Bro Preseli | – Proses statudol i gau'r ysgol yn ofynnol – cymeradwyaeth y Cyngor yn angenrheidiol.<br>– Ddim yn mynd i'r afael â’r nifer sylweddol o leoedd dros ben<br>– Yn dal i greu rhywfaint o gost refeniw i'r Cyngor<br>– Baich ychwanegol ar Ysgol Bro Preseli o safbwynt costau cynnal a rhedeg adeilad Clydau<br>– Dull gweithredu aneffeithlon, o ystyried yr angen i ddyblygu darpariaeth ar draws dau safle<br>– Ddim yn cyfrannu at ethos ysgol 'pob oed' |

# 7. Y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a ddilynir mewn perthynas â'r cynnig a gynhwysir fel rhan o'r ddogfen hon yn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac yn benodol, y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Bydd y broses a'r amserlen fel a ganlyn:

<table>
<tr><th>Dyddiad</th><th colspan="2">Proses</th></tr>
<tr><td>9 Rhagfyr 2025</td><td colspan="2">Cyhoeddi Dogfen Ymgynghori</td></tr>
<tr><td>Dyddiad i'w gadarnhau</td><td colspan="2">Sesiwn ymgynghori â disgyblion Clydau</td></tr>
<tr><td>23 Ionawr 2026</td><td colspan="2">Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig</td></tr>
<tr><td>O leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol</td><td colspan="2">Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori<br><br>- Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor<br>Y Cyngor i benderfynu a ddylid cymeradwyo cyhoeddiad hysbysiad statudol<br>Os caiff ei gymeradwyo - symud ymlaen i'r Hysbysiad Statudol<br>Os na chaiff ei gymeradwyo - daw'r cynnig i ben.</td></tr>
<tr><td>O fewn 26 wythnos i'r dyddiad cau uchod</td><td colspan="2">Cyhoeddi Hysbysiad Statudol (HS)<br>Os caiff ei gymeradwyo, bydd yr HS yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir a gwefan unrhyw gynigydd arall a'i arddangos yn yr ysgolion a enwir a mannau amlwg eraill yn y gymuned. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion perthnasol i'w ddosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr ac aelodau staff.<br><br>Bydd yr HS yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd yn caniatáu cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Rhaid i 15 o'r diwrnodau hyn (ac eithrio'r diwrnod cyhoeddi) fod yn ddiwrnodau ysgol.</td></tr>
<tr><td>28 diwrnod ar ôl dyddiad yr HS</td><td colspan="2">Dyddiad cau ar gyfer derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig</td></tr>
<tr><td>O fewn 28 diwrnod i ddiwedd y Cyfnod Gwrthwynebu</td><td><u>Lle cafwyd gwrthwynebiadau</u><br><br>- cyflwyno Adroddiad Gwrthwynebiadau i'r Cyngor<br>Y Cyngor i benderfynu ar y cynnig yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a gafwyd a’r hyn sydd wedi’i gynnwys yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau</td><td><u>Lle na chafwyd gwrthwynebiadau</u><br><br><u>Y Cyngor i benderfynu ar y cynnig</u></td></tr>
<tr><td>O fewn 16 wythnos i ddiwedd y Cyfnod Gwrthwynebu</td><td colspan="2">Cyhoeddi Penderfyniad y Cyngor</td></tr>
<tr><td>Medi 2026</td><td colspan="2">Os caiff ei gymeradwyo, gweithredu'r cynnig</td></tr>
</table>

Cyhoeddir yr holl adroddiadau a restrir uchod ar wefan y Cyngor Sir gyda rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgolion perthnasol yn cael gwybod eu bod ar gael. Bydd yr holl ymgyngoreion a restrir yn Adran 2 o'r ddogfen hon yn cael dolen e-bost i'r dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor; bydd copïau caled o'r holl ddogfennau ar gael drwy wneud cais amdanynt ar e-bost:EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk neu drwy ffonio 01437 775164.

# 8. Cwestiynau Cyffredin

| |
|---|
| **Pe bai'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, pryd fyddai'n cael ei weithredu?**<br>Yn seiliedig ar ein taflwybr cynllunio presennol, byddai Ysgol Clydau yn cau ar 31 Awst 2026. Yn amodol ar ddewis rhieni, byddai'r disgyblion yn cychwyn yn Ysgol Bro Preseli ar ddechrau blwyddyn academaidd 2026/27. |
| **Mae'n ymddangos bod y trefniant presennol, gydag Ysgol Bro Preseli'n goruchwylio arweinyddiaeth Ysgol Clydau, yn gweithio'n dda. Pam na all hyn barhau?**<br>Nid oes unrhyw sail ffurfiol i'r trefniant goruchwylio arweinyddiaeth presennol ac mae'r dibynnu ar ewyllys da Ysgol Bro Preseli Pe bai corff llywodraethu Ysgol Bro Preseli yn dewis tynnu'n ôl o'r cytundeb presennol, byddai'n gadael Ysgol Clydau mewn sefyllfa anodd heb arweinyddiaeth yn ei le. |
| **Beth yw lleoedd dros ben?**<br>Mae gan bob ysgol gapasiti cyhoeddedig sy'n cynrychioli ei gallu ffisegol i ddarparu ar gyfer disgyblion, h.y. maint a defnydd y lle sydd gan yr ysgol gan gynnwys ystafelloedd dosbarth. Capasiti Ysgol Clydau yw 71, fodd bynnag, gyda dim ond 35 plentyn ar gofrestr yr ysgol yn ôl CYBLD 2025, mae hyn yn cynrychioli meddiannaeth 50%, neu 50% o leoedd sbâr[2]. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod "*angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen. ... Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth a dylent wneud cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol ac o leiaf 30 o leoedd gwag*". |
| **A fydd yna ddigon o le i'r disgyblion mewn ysgolion lleol eraill?**<br>Bydd, oherwydd y lefelau uchel o leoedd dros ben ar draws yr ystâd ysgolion yn yr ardal (gweler atodiad 1). Yng nghyd-destun dalgylch Clydau, roedd gan Ysgol Bro Preseli 322 o leoedd sbâr (52 cynradd a 270 uwchradd) ar adeg Cyfrifiad Disgyblion 2025. |
| **Onid fait accompli yw hyn, gyda'r penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud?** |

[2] Ym mis Tachwedd 2025, roedd y nifer wedi gostwng i 23 o blant ar y gofrestr

| |
|---|
| Na, yr unig benderfyniad a wnaed hyd yma yw'r penderfyniad i ymgynghori ynghylch cau'r ysgol. Mae'r ddogfen hon yn rhan o'r broses ymgynghori lle rhoddir cyfle i rieni, llywodraethwyr, staff, y gymuned ehangach a sawl rhanddeiliad arall ddweud eu dweud. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cael eu cyhoeddi fel rhan o Adroddiad Ymgynghori dilynol y bydd aelodau etholedig y Cyngor yn ystyried yr adroddiad cyn gofyn iddynt benderfynu a ydynt yn dymuno symud ymlaen i'r cam nesaf. |
| **Sut alla'i wrthwynebu cynnig y Cyngor?**<br>Fel yr amlinellir yn Adran 7 o'r ddogfen hon, mae'r broses trefniadaeth ysgolion yn hirfaith a gall gymryd sawl mis i'w chwblhau. Cam presennol y broses yw ymgynghori, pan gaiff unrhyw un fynegi ei farn. Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gael i'r Cyngor fel y gall aelodau etholedig wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ai peidio Ni fydd unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir yn ystod y broses ymgynghori yn cael eu trin fel y cyfryw. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen i'r cam nesaf, h.y. cyhoeddi hysbysiad statudol, yna gall unrhyw un wneud gwrthwynebiad ffurfiol yn ystod y cyfnod Gwrthwynebu 28 diwrnod dilynol. Unwaith eto, bydd yr holl wrthwynebiadau a geir ar gael i'r Cyngor cyn i aelodau etholedig wneud penderfyniad terfynol ar y cynnig. |
| **Os bydd Ysgol Clydau yn gau, sut fydd rhieni'n cael eu cynrychioli'n deg ar gorff llywodraethu Ysgol Bro Preseli?**<br>Mae nifer o gategorïau o lywodraethwyr ysgol yn cael eu cynrychioli ar gyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir, gan gynnwys rhieni-lywodraethwyr a llywodraethwyr cymunedol; mae llywodraethwyr o'r fath yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd. Pan fydd lleoedd gwag yn codi, ceisir enwebiadau gan holl rieni/gofalwyr cymwys yr ysgol, ac os oes mwy o enwebiadau na swyddi gwag, cynhelir etholiad Rhiant-Lywodraethwr. Yn achos Llywodraethwyr Cymunedol, maent yn cael eu henwebu gan gorff llywodraethu ysgol i wasanaethu er budd y gymuned. Yn y ddau achos, mae digon o gyfle i rieni Clydau neu aelodau o'r gymuned ehangach wasanaethu ar gorff llywodraethu Ysgol Bro Preseli pan fydd swyddi gwag ar y bwrdd llywodraethu'n codi. |
| **Rydych chi'n ymgynghori â phob ysgol arall yn yr ardal – onid ar Ysgol Clydau yn unig y mae'r cynnig hwn yn effeithio?**<br>Mae'r cynnig wedi'i gyfyngu i Ysgol Clydau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni ymgynghori â'r holl ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, e.e. ysgolion cyfagos eraill. Rydym yn ymwybodol bod nifer o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Clydau eisoes yn mynychu ysgolion eraill yn yr ardal. |
| **Beth fydd yn digwydd i'r adeilad os bydd y Cyngor yn penderfynu cau'r ysgol?**<br>Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol, ni fyddai ar y Cyngor angen yr adeilad mwyach a byddai'r Adran Eiddo yn ceisio cael gwared arno neu ei brydlesu, yn dibynnu ar ddiddordeb y farchnad. Mae Canolfan Clydau, canolfan gymunedol |

| |
|---|
| boblogaidd, wedi'i chyd-lleoli ar safle'r ysgol ac mae'r Cyngor yn ei phrydlesu i 'Ganolfan Clydau' Nid oes unrhyw fwriad i newid y trefniant hwn. |

**ATODIAD 1**

# Manylion yr ysgolion yr effeithir arnynt

| Enw'r Ysgol | Categori | Categori Categori | Ystod Oedran | Disgyblion Meithrin Ionawr 2025 | Cyfanswm NAYG *- Ionawr 2025 | Gradd Cyflwr | Gradd Addasrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Bro Preseli | Cymunedol | Categori 3 | 3-19 | 17 | 932 | Cynradd B Uwchradd C | Cynradd B Uwchradd C |
| Ysgol Brynconin | Cymunedol | Categori 3 | 3-11 | 13 | 71 | C | C |
| Ysgol Maenclochog | Cymunedol | Categori 3 | 3-11 | 9 | 98 | B | B |
| Ysgol Eglwyswrw | Cymunedol | Categori 3 | 4-11 | 0 | 90 | B | B |
| Ysgol Cilgerran | Gwirfoddol a Reolir | Categori 3 | 3-11 | 14 | 114 | B | B |
| Ysgol Llandudoch | Cymunedol | Categori 3 | 3-11 | 11 | 77 | B | B |
| Ysgol y Ddwylan | Cymunedol | Categori 3,2 | 4-11 | 13 | 240 | B | B |
| Ysgol Hafodwenog | Cymunedol | Categori 3 | 4-11 | 1 | 41 | B | B |
| Ysgol Bro Brynach | Cymunedol | Categori 3 | 3-11 | 14 | 76 | A | B |
| Ysgol Beca | Cymunedol | Categori 3 | 4-11 | 2 | 44 | B | B |

**Nodiadau:**

- Mae niferoedd disgyblion fel ag yr oeddent adeg CYBLD mis Ionawr 2025 ac yn cynnwys disgyblion CAD.
- Mewn perthynas â graddau Cyflwr ac Addasrwydd
    - A = Da
    - B = Boddhaol (cyflwr) / Rhesymol (addasrwydd)
    - C = Gwael

*NAYG - Nifer ar y Gofrestr:

| Ysgol | Capasiti | Nifer Derbyn | Nifer Gwirioneddol ar y Gofrestr (Net o Ddisgyblion Rhan Amser ac Uned) | | | | | Rhagolygon Disgyblion* (Net o Ddisgyblion Rhan Amser ac Uned) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2025/26 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
| Ysgol Gynradd Bro Preseli | 210 | 30 | | | 149 | 147 | 158 | 160 | 161 | 165 | 168 | 168 |
| Ysgol Uwchradd Bro Preseli | 1027 | 164 | | | 755 | 753 | 757 | 800 | 834 | 834 | 834 | 838 |
| Ysgol Bro Preseli - Cyfanswm | 1237 | 194 | | | 904 | 900 | 915 | 960 | 995 | 999 | 1002 | 1006 |
| Ysgol y Preseli | | | 795 | 773 | | | | | | | | |
| Ysgol y Frenni | | | 149 | 146 | | | | | | | | |
| Ysgol Brynconin | 89 | 12 | 67 | 60 | 61 | 59 | 58 | 52 | 51 | 53 | 54 | 54 |
| Ysgol Maenclochog | 116 | 16 | 89 | 89 | 96 | 94 | 89 | 86 | 80 | 85 | 83 | 78 |
| Ysgol Eglwyswrw | 142 | 20 | 99 | 92 | 96 | 89 | 90 | 93 | 96 | 95 | 96 | 98 |
| Ysgol Cilgerran | 133 | 19 | 97 | 106 | 110 | 97 | 100 | 95 | 92 | 94 | 91 | 90 |
| Ysgol Llandudoch | 143 | 20 | 95 | 94 | 86 | 70 | 66 | 62 | 65 | 58 | 58 | 60 |
| Ysgol y Ddwylan | 350 | 48 | 281 | 262 | 241 | 247 | 240 | 215 | 211 | 198 | 204 | 198 |
| Ysgol Hafodwenog | 86 | 10 | 43 | 44 | 48 | 42 | 41 | 39 | 39 | 42 | 42 | 43 |
| Ysgol Bro Brynach | 126 | 15 | 74 | 67 | 75 | 77 | 76 | 77 | 77 | 78 | 83 | 84 |
| Ysgol Beca | 86 | 10 | 57 | 56 | 47 | 47 | 44 | 43 | 40 | 39 | 37 | 40 |

**ATODIAD 2**

# Detholiadau o Adroddiadau Estyn

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiad arolygiad diweddaraf Estyn</th><th colspan="2">Dyfarniadau Estyn</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Preseli</td><td>Arolygwyd Hydref 2025, adroddiad yn yr arfaeth</td><td colspan="2"></td><td></td></tr>
<tr><td>Ysgol y Preseli</td><td>Tachwedd 2016</td><td colspan="3">Adroddiad Arolygiad Ysgol y Preseli 2016<br><table><tr><td>Perfformiad cyfredol yr ysgol</td><td>Da</td></tr><tr><td>Rhagolygon ar gyfer gwella:</td><td>Da</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>Ysgol y Frenni</td><td>Hydref 2018</td><td colspan="3">Adroddiad Arolygiad Ysgol y Frenni 2018<br><table><tr><td>Safonau</td><td>Da</td></tr><tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Profiadau addysgu a dysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Gofal, cymorth ac arweiniad</td><td>Da</td></tr><tr><td>Arweinyddiaeth a rheolaeth</td><td>Da</td></tr></table></td></tr>
<tr><td>Ysgol Brynconin</td><td>Mai 2024</td><td colspan="3" rowspan="2">Adroddiad Arolygiad Ysgol Brynconin 2024 / Adroddiad Arolygiad Ysgol Maenclochog 2024<br>Ers eu ffedereiddio yn 2020, mae Ysgol Maenclochog ac Ysgol Brynconin wedi ffynnu o dan arweinyddiaeth ddoeth a chadarn eu pennaeth, sydd, ynghyd â llywodraethwyr a staff, wedi meithrin cymuned ddysgu effeithiol. Mae'r ysgolion yn dathlu Cymreictod, cwrteisi a pharch, gyda staff yn ymrwymedig i ofal a lles o ansawdd uchel mewn amgylchedd cefnogol. Mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau disgyblion ac yn gwella eu sgiliau llafar a'u balchder yn yr iaith Gymraeg. Tra bod disgyblion yn datblygu gwybodaeth a sgiliau priodol, mae angen gwella ysgrifennu annibynnol. Mae athrawon yn ymgysylltu â disgyblion yn dda ond mae angen iddynt ddarparu gweithgareddau mwy heriol. Mae disgyblion yn dylanwadu'n weithredol ar benderfyniadau'r ysgol, ac mae'r berthynas gref rhwng yr ysgol a'r rhieni yn ganolog i'r gymuned.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Maenclochog</td><td>Mai 2024</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiad arolygiad diweddaraf Estyn</th><th>Dyfarniadau Estyn</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td>Ysgol Eglwyswrw</td><td>Hydref 2022</td><td colspan="2">Adroddiad Arolygiad Ysgol Eglwyswrw 2022<br>Mae Ysgol Eglwyswrw yn ysgol hapus, gynhwysol a chroesawgar iawn sy’n rhoi pwyslais cryf ar ddathlu Cymreictod a pharchu eraill Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol, yn ymddwyn yn dda, ac yn gwneud cynnydd cryf, yn enwedig wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus. Mae'r cwricwlwm yn ddifyr ac yn ysgogol, er bod athrawon weithiau'n gor-gyfeirio, gan gyfyngu ar waith annibynnol. Mae'r pennaeth newydd wedi rhannu ei weledigaeth yn llwyddiannus, gan feithrin amgylchedd cynhwysol sy'n seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r pennaeth, gan gyfrannu at lwyddiant yr ysgol.</td></tr>
<tr><td>Ysgol Cilgerran</td><td>Hydref 2017</td><td>Adroddiad Arolygiad Ysgol Cilgerran 2017<br><table><tr><td>Safonau</td><td>Da</td></tr><tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Profiadau addysgu a dysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Gofal, cymorth ac arweiniad</td><td>Da</td></tr><tr><td>Arweinyddiaeth a rheolaeth</td><td>Da</td></tr></table></td><td></td></tr>
<tr><td>Ysgol Llandudoch</td><td>Chwefror, 2020</td><td>Adroddiad Arolygiad Ysgol Llandudoch 2020<br><table><tr><td>Safonau</td><td>Da</td></tr><tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Profiadau addysgu a dysgu</td><td>Da</td></tr><tr><td>Gofal, cymorth ac arweiniad</td><td>Da</td></tr><tr><td>Arweinyddiaeth a rheolaeth</td><td>Da</td></tr></table></td><td></td></tr>
<tr><td>Ysgol y Ddwylan</td><td>Mai 2022</td><td>Adroddiad Arolygiad Ysgol y Ddwylan 2022<br>Mae'r ysgol yn meithrin ethos gofalgar, cynhwysol a Chymreig lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi fel rhan o dîm. Mae disgyblion yn dangos ymddygiad parchus a goddefgar, wedi'i gefnogi gan ddiwylliant sy'n annog trafodaethau agored am emosiynau, gan bwysleisio ei bod ‘yn iawn peidio bod yn iawn." Mae arweinyddiaeth gref gan y pennaeth, y llywodraethwyr a'r cydlynwyr yn sicrhau cefnogaeth</td><td>Cynhaliodd Estyn ag ymweliad interim â'r ysgol ym mis Chwefror 2025.<br>Canfyddiadau’r ymweliad interim</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Ysgol</th><th>Dyddiad arolygiad diweddaraf Estyn</th><th>Dyfarniadau Estyn</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>gyson gan staff ar gyfer cynnydd a lles disgyblion. Mae athrawon a staff cymorth yn creu profiadau dysgu diddorol, pwrpasol, gan annog mewnbwn disgyblion a darparu ar gyfer pob gallu. Mae'r dull hwn yn meithrin yn y disgyblion frwdfrydedd, dyfalbarhad ac ymdeimlad cryf o berchnogaeth dros eu dysgu.</td><td></td></tr>
<tr><td>Ysgol Hafodwenog</td><td>Chwefror 2019</td><td>Adroddiad Arolygiad Ysgol Hafodwenog 2019<br><table>
<tr><td>Safonau</td><td>Digonol ac angen gwella</td></tr>
<tr><td>Lles ac agweddau at ddysgu</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Profiadau addysgu a dysgu</td><td>Digonol ac angen gwella</td></tr>
<tr><td>Gofal, cymorth ac arweiniad</td><td>Da</td></tr>
<tr><td>Arweinyddiaeth a rheolaeth</td><td>Digonol ac angen gwella</td></tr>
</table></td><td>Ar ôl adolygiad 2019 Estyn rhoddwyd yr Ysgol yn y categori ‘dilyn i fyny’ ond cafodd ei thynnu o’r categori hwn ym mis Chwefror 2021 ar ôl gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion. Cynhaliodd Estyn ymweliad interim â'r ysgol ym mis Chwefror 2025.<br>Canfyddiadau’r ymweliad interim</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Brynach</td><td>Tachwedd 2023</td><td colspan="2">Adroddiad Arolygiad Ysgol Bro Brynach 2023<br>Mae Ysgol Bro Brynach, sy'n rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Beca, yn adnabyddus am ei hethos cyfeillgar, cynhwysol a hapus, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddwyn yn barchus. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf ac mae'n darparu cwricwlwm cyfoethog, diddorol wedi'i siapio gan ddiddordebau disgyblion, er bod datblygu sgiliau digidol yn faes i'w wella. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu trwy weithgareddau creadigol fel 'Gwener Gwyllt' ac yn dangos chwilfrydedd a chymhelliant, er mai cyfleoedd cyfyngedig sydd iddynt gwblhau tasgau’n annibynnol. Mae staff yn gweithio ar y cyd, gan feithrin perthnasoedd cefnogol a nodi anghenion disgyblion yn effeithiol. Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir, ofalgar wedi'i chefnogi gan staff ymroddedig, ac er gwaethaf anghysondebau arweinyddiaeth yn y gorffennol, mae'r ysgol yn elwa o gorff llywodraethu ymroddedig sy'n deall ei chryfderau a'i meysydd ar gyfer twf.</td></tr>
</table>

| Ysgol | Dyddiad arolygiad diweddaraf Estyn | Dyfarniadau Estyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Ysgol Beca | Tachwedd 2023 | Adroddiad Arolygiad Ysgol Beca<br>Mae Ysgol Beca, sy'n rhan o ffederasiwn gydag Ysgol Bro Brynach, yn adnabyddus am ei hethos gofalgar, cyfeillgar a chynhwysol sy'n creu amgylchedd cadarnhaol a diogel i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn gwneud cynnydd da mewn llythrennedd a rhifedd oherwydd cynllunio manwl, er bod datblygu sgiliau digidol yn parhau i fod yn faes gwannach. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gyflwyno cwricwlwm cyfoethog wedi'i siapio gan fewnbwn disgyblion, yn enwedig trwy weithgareddau 'Gwener Gwyllt' difyr ac ysgogol, er mai dylanwad cyfyngedig sydd gan ddisgyblion dros eu dysgu unwaith y bydd themâu’n dechrau. Mae'r ysgol yn cynnal awyrgylch cynnes, gweithgar, gydag athrawon yn defnyddio technegau amrywiol ac yn meithrin perthnasoedd cryf â disgyblion. Mae gweledigaeth glir, feithringar y pennaeth dros dro yn cael ei chefnogi'n dda gan staff a llywodraethwyr ymroddedig, sy'n deall cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella er gwaethaf anghysondebau mewn arweinyddiaeth yn y gorffennol. | |

ATODIAD 3

# ASESIAD O’R EFFAITH AR Y GYMUNED

<table>
<tr><th>Effaith ar faes/ardal</th><th>+/-</th></tr>
<tr><td>

**Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

**Ysgol Clydau**

Yn ôl CYBLD 2025, mae 40 o ddisgyblion cynradd yn byw yn nalgylch Ysgol Clydau ac sy'n mynychu ysgolion Sir Benfro. O'r rhain, dim ond 14 (35%) sy'n mynychu Ysgol Clydau. Roedd disgyblion yn mynychu ysgolion fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Clydau | 14 | 35% |
| Ysgol Bro Preseli | 24 | 60% |
| Ysgol Eglwyswrw | 1 | 2.5% |
| Ysgol Glannau Gwaun | 1 | 2.5% |
| | 40 | |

</td><td>Newid negyddol bach<br><br>O ystyried y lefel uchel bresennol o ffafriaeth rhieni am ysgolion nad ydynt yn y dalgylch, mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn arwain at effaith negyddol yn gyffredinol, ond cydnabyddir y bydd y newid yn cael effaith ar y 14 disgybl sy'n mynychu'r</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Effaith ar faes/ardal</th><th>+/-</th></tr>
<tr><td></td><td>ysgol, a'u teuluoedd.</td></tr>
<tr><td>

**Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o’r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol**

**Ysgol Clydau**
Yn ôl CYBLD 2025, roedd 35 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Clydau. O'r rhain, roedd 14 (40%) yn mynychu o ddalgylch yr ysgol. Mae dalgylchoedd 'cartref' yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Clydau fel a ganlyn:

<table>
<tr><th></th><th>Nifer</th><th>%</th></tr>
<tr><td>Ysgol Clydau</td><td>14</td><td>40%</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Preseli</td><td>11</td><td>31.4%</td></tr>
<tr><td>Sir Gaerfyrddin</td><td>7</td><td>20%</td></tr>
<tr><td>Ysgol Cilgerran</td><td>3</td><td>8.5%</td></tr>
<tr><td>CYFANSWM</td><td>35</td><td></td></tr>
</table>

</td><td>Newid negyddol bach<br><br>Mae 60% o’r plant sy’n mynd i Ysgol Clydau yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch. Fodd bynnag, mae'r patrwm o ddewis rhieni yn nodweddiadol o ystyried lleoliad yr ysgol ger ffin y sir ac ysgolion cyfagos.</td></tr>
</table>

| Effaith ar faes/ardal | +/- |
|---|---|
| **Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill y mae'r ysgol yn eu cynnig, e.e. clwb ieuenctid, cylch chwarae**<br><br>**Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu, e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol**<br><br>Ar wahân i Glwb Brecwast dyddiol, nid yw Ysgol Clydau yn cynnig unrhyw ddarpariaeth ar ôl ysgol neu gymunedol arall. Fodd bynnag, mae Canolfan Clydau sydd wedi'i lleoli'n agos at yr ysgol yn cynnal nifer fawr ac amrywiol o ddosbarthiadau a digwyddiadau cymunedol. Yn ôl gwefan Canolfan Clydau cynigir y gweithgareddau canlynol<br><br>Yoga, Dosbarthiadau Cyfrifiadurol Age Cymru, Bŵt-wersyll Bwystfilod Bach, Disgo Sglefr-Rolio i Blant, Dawnsio Llinell, Clinig Lles y Preseli, Te am 2, Clwb Cinio, Gadewch i ni Dyfu'n Iachach Gyda'n Gilydd, Bocsio ar gyfer Ffitrwydd i Ferched yn Unig.<br><br>Gallai'r gweithgareddau a gyflwynir gan Ganolfan Clydau barhau pe bai'r ysgol yn cau. | Dim newid |
| **Os darperir llety, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ymhle y byddent yn cael eu darparu pe bai'n cau?**<br><br>Y tu hwnt i ddarpariaeth Clwb Brecwast, nid oes unrhyw wasanaethau eraill yn cael eu darparu gan yr ysgol. Fel y nodir mewn mannau eraill, mae darpariaeth Clwb Brecwast hefyd ar gael yn Ysgol Bro Preseli. | Dim newid |
| **Pe bai'r ysgol yn cau, a fydd cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach yn cael eu gwella, neu a fyddai modd gwneud hynny (e.e. gwelliannau i neuaddau pentref, meysydd chwarae, darparu cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau).**<br><br>Pe bai'r ysgol yn cau, gallai Canolfan Clydau, neu sefydliad arall, fynegi diddordeb yn adeiladau'r ysgol, a allai arwain at wella'r ddarpariaeth gymunedol. | Newid cadarnhaol posibl |
| **Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol amgen**<br><br>Mae Ysgol Bro Preseli yn cynnig amrywiaeth eang o ddarpariaeth ar ôl ysgol a chymunedol sydd o leiaf yn gymaradwy â'r rhai a ddarperir yng Nghanolfan Clydau. Mae pennaeth Ysgol Bro Preseli wedi rhoi gwybod am y canlynol, ond dywedodd fod y ddarpariaeth ar ôl ysgol yn amrywio o un tymor i'r llall: | Dim newid |

<table>
<tr><th>Effaith ar faes/ardal</th><th>+/-</th></tr>
<tr><td>Clwb brecwast, Clwb Ensemble Cerddoriaeth, Clwb Chwaraeon yr Urdd, Clwb Adran yr Urdd, Clwb aml-chwaraeon yr Urdd (Bl. 1 a 2), Clwb Celf (paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd).<br><br>O ran y gymuned, mae'r sefydliadau canlynol yn defnyddio'r ysgol yn rheolaidd:<br><br>Clwb Criced Crymych, Clwb Criced Llechryd, Menter Iaith Sir Benfro, Theatr Bro'r Preseli, Gŵyl Bro Preseli, Yr Urdd.<br><br>Mae'r campws yn cynnwys canolfan hamdden a llyfrgell</td><td></td></tr>
<tr><td>Gwybodaeth am y pellter a'r amser teithio cysylltiedig â mynychu ysgol amgen o'r un categori iaith<br><br>Mae'r pellteroedd a'r amseroedd teithio bras o Ysgol Clydau i ysgolion amgen, yn seiliedig ar Google Maps, fel a ganlyn.
<table>
<tr><th></th><th>Bro Preseli</th><th>Cilgerran</th><th>Eglwyswrw</th><th>Beca</th><th>Hafodwenog</th><th>Bro Brynach</th><th>Llandudoch</th><th>Brynconin</th><th>Y Ddwylan</th><th>Maenclochog</th></tr>
<tr><td>Pellter (milltiroedd)</td><td>4.3</td><td>9.7</td><td>8.3</td><td>9.9</td><td>4.9</td><td>7.8</td><td>12.7</td><td>12.5</td><td>8.5</td><td>12.9</td></tr>
<tr><td>Amser (munudau)</td><td>10</td><td>18</td><td>17</td><td>18</td><td>11</td><td>14</td><td>26</td><td>22</td><td>20</td><td>27</td></tr>
</table>
Ar sail y 33 disgybl ar gofrestr Ysgol Clydau  ddiwedd tymor yr haf 2025, byddai'n rhaid i 24 disgybl deithio ymhellach i fynychu Ysgol Bro Preseli, h.y. yr ysgol ddynodedig fel rhan o'r cynnig hwn; y pellter ychwanegol ar gyfartaledd yw 1.56 milltir. Byddai gan 9 plentyn lai o bellter i'w deithio.<br>Byddai'n rhaid i bob plentyn o ddalgylch yr ysgol sy'n mynychu Ysgol Clydau deithio ymhellach i'r ysgol.<br><br>Byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i ddisgyblion cymwys.</td><td>Newid negyddol</td></tr>
<tr><td>Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid a disgyblion â'r ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y bydd disgyblion (ac yn enwedig unrhyw ddisgyblion llai breintiedig) yn cael eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol)</td><td>Newid negyddol</td></tr>
</table>

| Effaith ar faes/ardal | +/- |
|---|---|
| Mae gweithio clwstwr a thrawsnewid o fewn ysgolion bwydo'r Preseli eisoes yn gryf gyda bron pob disgybl o Ysgol Clydau yn mynychu Ysgol Bro Preseli ar gyfer eu haddysg uwchradd. Byddai ymgysylltiad â rhieni a disgyblion yn parhau mewn cydweithrediad â phob lleoliad, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol a'r materion cludiant cysylltiedig posibl. | |
| **Effaith ar iechyd a lles, e.e. pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol**<br><br>Er y bydd ysgolion yn annog cludiant cynaliadwy, mae'n anochel y bydd natur wledig ac ynysig yr ardal leol yn arwain at rieni'n mynd â'u plant i'r ysgol mewn car.  Fodd bynnag, pe bai dalgylch Ysgol Bro Preseli yn cael ei ymestyn, byddai holl ddisgyblion Ysgol Clydau (ar y gofrestr ar hyn o bryd ond yn amodol ar wiriad) yn gymwys am gludiant ysgol. | Newid negyddol |
| **Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau'n eu cael ar ddarpariaethau cludiant gyhoeddus**<br><br>Nid oes unrhyw oblygiadau ehangach o ran darpariaethau cludiant cyhoeddus o ganlyniad i'r cynigion. | Dim newid |
| **Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach**<br><br>O ystyried y ganolfan gymunedol sydd ar safle'r ysgol, nid ystyrir y bydd unrhyw effaith ar faterion diogelwch cymunedol. | Dim newid |
| **A fyddai cau yn annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i adael y gymuned neu'n atal teuluoedd ifanc rhag symud i'r gymuned**<br><br>Mae symudedd teuluoedd, ac yn arbennig hoffter rhieni am ysgolion eraill yn yr ardal, yn awgrymu na fyddai cau Ysgol Clydau yn annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i adael y gymuned. | Dim newid |
| **Pa effaith y gallai cau ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus sydd ar ôl mewn cymuned** | Dim newid |

| Effaith ar faes/ardal | +/- |
|---|---|
| Mae Canolfan Clydau, canolfan gymunedol boblogaidd, wedi'i chydleoli ar safle Ysgol Clydau, ac ni fydd y bwriad i gau'r ysgol yn effeithio'n uniongyrchol arni. | |
| **A yw'r ysgol yn ganolbwynt bywyd cymunedol go iawn, a ddefnyddir at ddibenion eraill - megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd, a chyfarfodydd eraill - a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n lleihau oherwydd yr angen i symud i rywle arall**<br>Does dim amheuaeth bod yr ysgol a'i chanolfan gymunedol gyfagos (Canolfan Clydau) yn cynrychioli canolbwynt y gymuned. Fodd bynnag, gall Canolfan Clydau barhau fel lleoliad ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol ac ati, pe bai'r ysgol yn cau. | Dim newid |
| **A fyddai colli'r ysgol, a theuluoedd posibl, yn cael effaith niweidiol ar economi ehangach y gymuned**<br>Mae symudedd teuluoedd, ac yn arbennig hoffter rhieni am ysgolion eraill yn yr ardal, yn awgrymu na fyddai cau Ysgol Clydau yn annog teuluoedd â phlant oedran ysgol i adael y gymuned. | Dim newid |
| **Effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau ysgol sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned leol)**<br>Mae Canolfan Clydau yn ganolfan gymunedol sydd wedi'i chyd-leoli ar safle Ysgol Clydau yn Nhegryn. Er y byddai cau'r ddarpariaeth addysg yn golled, ni fyddai fawr ddim o'r cyfleusterau a ddefnyddir ar safle'r ysgol gan y gymuned leol yn cael eu colli. Mae Canolfan Clydau'n cael ei phrydlesu gan CSP. | Rhywfaint o newid negyddol |

| **Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â nodau Llesiant Sir Benfro / Cymru** | |
|---|---|
| **Cymru Lewyrchus** | Mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ffyniant yn yr ardal, y tu hwnt i'r effaith uniongyrchol ar staff yr ysgol. Mae'n annhebygol y bydd yr effaith ar fusnesau lleol a sefydliadau eraill fel Canolfan Clydau yn sylweddol, o ystyried y nifer isel o ddisgyblion. |
| **Cymru Gydnerth** | Dylai'r cynnig gynyddu gwydnwch Ysgol Bro Preseli, ac o bosibl ysgolion eraill yn yr ardal, gyda llai o leoedd dros ben. |
| **Cymru Iachach** | Ni ragwelir unrhyw effaith sylweddol |

| | |
|---|---|
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Gweler Atodiad 4 |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Disgwylir y byddai yna effaith tymor byr ar y dechrau o ran ansefydlogrwydd a phrofiadau newydd, tan iddo ddod yn 'normal newydd'. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Ni ragwelir unrhyw effaith gan fod yr ysgol arfaethedig, ac ysgolion lleol eraill, yn yr un categori o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, sef Categori tri. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Gallai arwain at effaith fach o ran allyriadau cerbydau ychwanegol, oherwydd yr angen i gynyddu cludiant ysgol, er y bydd y ffaith na fydd Ysgol Clydau'n cynhyrchu allyriadau os caiff ei chau yn gwrthbwyso hyn |

| **Arfarnu cynaliadwyedd y cynnig** | |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sut mae'r cynnig yn cadw'r cydbwysedd tymor byr â diogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir | Mae'r cynnig yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r ffenomen sirol o ostyngiad yn niferoedd disgyblion, trwy gydgrynhoi disgyblion mewn nifer llai o ysgolion, a fydd yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor oherwydd niferoedd uwch o ddisgyblion a'r cyllid cysylltiedig.<br><br>Nid yw parhau i gefnogi'r nifer presennol o ysgolion, o ystyried niferoedd isel, ac sy'n parhau i leihau, y disgyblion, yn gynaliadwy dros y tymor hir, ac nid yw'n unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru o safbwynt sicrhau bod y ddarpariaeth addysg yn rhoi gwerth am arian. |
| **Atal**<br>Sut y gall y cynnig atal problemau rhag digwydd neu waethygu | Bydd cynnal y status quo yn arwain at heriau cynaliadwyedd ariannol parhaus, am fod cyn lleied o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae cydgrynhoi i nifer llai o ysgolion gyda nifer uwch o |

| | |
|---|---|
| | ddisgyblion yn lleihau'r risg y bydd y broblem bresennol yn gwaethygu. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion cyrff cyhoeddus eraill | Mae'r cynnig yn dilyn gofynion ymgynghori statudol Llywodraeth Cymru ac mae'n unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch sicrhau bod darpariaeth addysg mewn siroedd yn rhoi gwerth am arian. |
| **Cydweithio**<br>Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â gweithio gyda sefydliadau eraill neu rannau eraill o'r Cyngor. | Mae cydweithio â sefydliadau eraill, yn enwedig y cyrff llywodraethu ysgolion sydd o fewn cwmpas y cynnig hwn yn allweddol i sicrhau llwyddiant os caiff y cynnig ei weithredu. |
| **Ymgysylltu**<br>Sut mae pobl wedi cael eu cynnwys a sut rydyn ni wedi sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth Sir Benfro. | Mae cyfranogiad eang rhanddeiliaid yn rhan annatod o'r broses trefniadaeth ysgolion statudol yn Sir Benfro. |

# ATODIAD 4

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

<table>
<tr><th>Nodweddion Gwarchodedig</th><th>Ysgol Clydau</th><th>Cynnig</th><th>Effaith</th></tr>
<tr><td>Oedran</td><td>Ystod oedran ysgol Clydau yw 4 - 11 oed</td><td>Mae Ysgol Bro Preseli yn ysgol pob oed 3-19, sy'n dileu'r pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae ysgolion eraill yn yr ardal yn rhai 3-11 a 4-11 (gweler atodiad 1)</td><td>Cadarnhaol</td></tr>
<tr><td>Anabledd</td><td>Mae ramp pwrpasol i alluogi mynediad trwy'r drws ffrynt. Mae mynediad trwy'r drws cefn wedi'i addasu i ganiatáu mynediad i'r anabl. Mae tu mewn yr adeilad i gyd ar un lefel.</td><td>Ysgol Bro Preseli<br><br>Mae adran gynradd Ysgol Bro Preseli yn gwbl hygyrch i ddisgyblion ag anableddau. Nid yw campws y sector uwchradd yn gwbl hygyrch, ond mae'r amserlenni wedi'u haddasu fel bod disgyblion ag anableddau yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae dosbarthiadau’n cael eu symud i ystafelloedd dosbarth hygyrch i bawb.</td><td>Dim newid ar y cam ysgol gynradd</td></tr>
<tr><td>Hil</td><td>Yn CYBLD 2025, disgrifir 8.5% o ddisgyblion fel rhai sydd â chefndir ethnig heblaw gwyn Prydeinig.<br>Nid oes unrhyw wahaniaethu ar sail hil yn y Polisi Derbyn</td><td>Ysgol Bro Preseli Yn CYBLD 2025, disgrifir 2.7% o ddisgyblion fel rhai sydd â chefndir ethnig heblaw gwyn Prydeinig.<br>Nid oes unrhyw wahaniaethu ar sail hil yn y Polisi Derbyn</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Crefydd a Chred</td><td>Mae Ysgol Clydau yn ysgol gymunedol ac nid oes ganddi gymeriad crefyddol.</td><td>Mae Ysgol Bro Preseli yn ysgol gymunedol ac nid oes ganddi gymeriad crefyddol. Ar wahân i Ysgol Cilgerran, mae ysgolion lleol eraill yn yr ardal hefyd yn ysgolion cymunedol, heb gymeriad crefyddol.</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Rhyw</td><td>Mae Ysgol Clydau yn ysgol gymysg</td><td>Mae Ysgol Bro Preseli yn ysgol gymysg</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Priodas neu bartneriaeth sifil</td><td colspan="2" rowspan="3">Mae Ysgol Bro Preseli, a phob ysgol amgen arall yn bodloni'r gofynion i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 o fewn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Beichiogrwydd a mamolaeth</td><td>Dim newid</td></tr>
<tr><td>Cyfeiriadedd rhywiol</td><td>Dim newid</td></tr>
</table>

| Nodweddion Gwarchodedig | Ysgol Clydau | Cynnig | Effaith |
|---|---|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | | | Dim newid |

**ATODIAD 5**

# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG – HYDREF 2025

Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn Atodiad C i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ynghyd ag ystyriaethau ehangach yn unol â chanllawiau ar asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yng nghyd-destun Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015. Ar ben hynny, mae wedi'i ysgrifennu yng nghyd-destun fframwaith cyfreithiol a pholisi ehangach sy'n cynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag at 7 nod llesiant, gan gynnwys *Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu*.
- Cymraeg 2050, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, gweithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd. Rydym yn cydnabod bod addysg cyfrwng Cymraeg yn ffactor hanfodol wrth gyflawni'r weledigaeth hon.
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Amlinellu ein gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro.

**Pwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol arnynt?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Clydau ar hyn o bryd, a'u rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.

O ganlyniad i'r ystyriaeth a amlinellir yn yr asesiad effaith hwn (tabl isod) ac yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned (atodiad 3), ystyrir mai effaith niwtral y bydd y cynnig hwn yn ei gael ar y Gymraeg. Mae hyn yn bennaf oherwydd y bydd y disgyblion sy'n astudio yn Ysgol Clydau ar hyn o bryd yn gallu parhau i dderbyn addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3, boed yn Ysgol Bro Preseli neu un o'r ysgolion categori 3 eraill yn y clwstwr, yn dibynnu ar ddewis rhieni. Mae ffactorau eraill a amlinellir isod hefyd yn dangos effaith niwtral o leiaf, gan gynnwys gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol amgen arfaethedig, a'r gweithgareddau/cyfleusterau a fyddai ar gael yn yr ysgol honno.

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol | Mae Ysgol Clydau yn ysgol Cyfrwng Cymraeg Categori 3 |
| Gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol amgen | Mae pob ysgol gynradd arall yng nghlwstwr y Preseli hefyd yn ysgolion Categori 3. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen. | Ysgol Clydau - Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu defnydd o eirfa Gymraeg a'u dealltwriaeth o batrymau'r iaith Gymraeg o ran llafaredd o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.<br><br>Mae llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd cryf wrth ddatblygu eu sgiliau iaith, ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.<br><br>Ysgol Bro Preseli – Mae cyflawniad disgyblion gyda'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn gryf. Mae pob dysgwr yn yr ysgol yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yng nghyd-destun ffurfiol eu hystafelloedd dosbarth, ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol o fewn a thu allan i'r ysgol. Maent yn defnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur gydag oedolion cyfarwydd yn yr ysgol, ac yn ymateb ac yn sgwrsio'n briodol gydag ymwelwyr. Mae'r dysgwyr mwy hyderus yn sgwrsio â'i gilydd yn ddigymell yn Gymraeg. Erbyn diwedd blwyddyn 6, mae bron pob disgybl wedi cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd. Mae hyn yn parhau wrth i ddisgyblion symud ar hyd y continwwm addysgol i addysg ôl-16. |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol yn yr ysgol ac unrhyw ysgol amgen sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. yr Urdd, clybiau Mentrau Iaith) | Ysgol Clydau. Nid oes unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg. Gweler atodiad 3 (Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned) ynglŷn â gweithgareddau yng Nghanolfan Clydau.<br><br>Mae Ysgol Bro Preseli yn darparu ystod eang o gyfleoedd ar ôl ysgol ac allgyrsiol i ddysgwyr. Darperir |

| | |
|---|---|
| | gwybodaeth am y rhain yn yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3. |
| Gwybodaeth ynghylch a yw’r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau’r gymuned ddysgu Cymraeg, neu’n ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, a ble y gellid darparu unrhyw gyfleusterau amgen. | Cefnogir y ddarpariaeth dysgu Cymraeg gan Dysgu Sir Benfro, sy'n darparu dosbarthiadau yn y lleoliadau canlynol:<br>Canolfan Dysgu Cymunedol Abergwaun<br>Hermon (tua milltir o Grymych)<br>Canolfan Gymunedol Bloomfield Arberth<br>Ar-lein: |
| A allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol arall er mwyn hyrwyddo safonau yn y Gymraeg ymhellach. | Nid oes angen cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol yn Ysgol Bro Preseli, gan fod ystod eang o gyfleusterau o'r fath ar gael eisoes, gweler atodiad 3. Mae pob myfyriwr yn cael ei gefnogi a'i annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. |
| Sut y gellid cefnogi ymgysylltiad rhieni a disgyblion ag unrhyw ysgol amgen ac unrhyw loywi iaith penodol y mae’n ei gynnig (e.e. sut bydd disgyblion yn cael eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd, Mentrau Iaith. | |
| Effeithiau posibl y gallai penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu drin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg | Nid yw’r cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae'n sicrhau y gall pob disgybl sy'n derbyn addysg Gymraeg ar hyn o bryd, barhau i dderbyn addysg Gymraeg o fewn yr un categori o ysgol, a gyda'r un safon o addysg o leiaf, ac, yn achos Ysgol Bro Preseli, gydag ystod ehangach o ddarpariaeth/cyfleusterau.<br><br>Disgwylir i'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg aros o leiaf yr un fath â nawr.<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael yn ddwyieithog, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y cyfle i ddarllen dogfennau sy'n ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg a/neu Saesneg, ac i roi ymateb yn eu dewis iaith. |
| Sylwadau a ddarparwyd gan fforwm addysg cyfrwng Cymraeg yr awdurdod lleol. | Nid yw Fforwm y Gymraeg wedi rhoi sylw ar y cynnig hwn. |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth am sut mae’r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau gweithredu y bydd eu hangen yn y dyfodol o ganlyniad i’r newid i barhau i gydymffurfio â’r cynllun neu gyrraedd targedau yn y cynllun. | Bydd y ddarpariaeth yn Ysgol Bro Preseli yn parhau i gefnogi'r amcanion a nodir yn y CSCA. Yn benodol mae canlyniad 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i un arall; canlyniad 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, a chanlyniad 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, i gyd yn feysydd y disgwylir iddynt gael eu cefnogi trwy'r cynnig hwn. |

**Ffactorau i'w hystyried wrth gymeradwyo/penderfynu ar gynnig trefniadaeth ysgol.**

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| **1.3 Ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Dylai’r cyrff perthnasol roi buddiannau dysgwyr uwchlaw popeth arall. Gan gyfeirio at bum maes arolygu Fframwaith Arolygu Cyffredin Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru (Estyn) (2024), dylent ystyried effaith debygol y cynigion ar y canlynol yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall y maent yn debygol o effeithio arnynt. | | | | |
| – Safonau a chynnydd yn gyffredinol, o ran grwpiau penodol a sgiliau.<br>– Lles ac agweddau at ddysgu<br>– Profiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu, ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a darpariaeth sgiliau).<br>– Cymorth gofal ac arweiniad (olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu); ac<br>– Arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwella, dysgu proffesiynol, a’r defnydd o adnoddau)<br>– Dylai cyrff perthnasol roi sylw arbennig i effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag AAA. | Mae ymweliadau Estyn ac ymweliadau ALI rheolaidd yn cydnabod:<br><br>• Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn sgil penderfyniad y pennaeth i ymddiswyddo'n sydyn ym mis Mai 2024, mae'r corff llywodraethu wedi creu cynllun wrth gefn cryf, gan rannu arbenigedd staff arweinyddiaeth Ysgol Bro Preseli a phenodi arweinydd safle ymroddedig a galluog.<br>• Mae'r arweinydd safle presennol a'r athro | – Dim newid sylweddol o'r status quo gan y byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau fel y mae ar hyn o bryd, h.y. gydag arweinyddiaeth yn cael ei oruchwylio gan Ysgol Bro Penfro;<br>– Byddai corff llywodraethu newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer y Ffederasiwn a fyddai'n gwasanaethu’r ddwy ysgol;<br>– Cadw tarfu ar ddisgyblion, rhieni a staff i’r isafswm.<br>– Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. | – Newid sylweddol o'r status quo gan y byddai'r ddarpariaeth yn rhan o gyllideb ddirprwyedig a strwythur staffio Bro Preseli;<br>– Cadw tarfu ar ddisgyblion, rhieni a staff i’r isafswm.<br>– Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.<br>– Pontio ffurfiol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn dal yn angenrheidiol.<br>– Byddai rhai arbedion ariannol yn cael eu cyflawni, ond byddai'r ddarpariaeth ddyblyg yn rhoi pwysau | – Fel rhan o ysgol 3 -19, byddai hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddatblygu cynnydd grwpiau o ddysgwyr a sgiliau.<br>– Gellir gwella lles ac agweddau at ddysgu mewn ysgol 3 - 19, trwy ddileu'r pwyntiau pontio.<br>• Rhoi mwy o gyfle i staff addysgu a staff cymorth ddatblygu'n broffesiynol;<br>• Galluogi mwy o gyfleoedd i staff symud rhwng cyfnodau allweddol a datblygu arbenigedd ymhellach;<br>• Galluogi cwricwlwm priodol parhaus a chyfleoedd allgyrsiol ehangach, a fyddai'n gwella presenoldeb a chanlyniadau addysgol. |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| | dosbarth newydd wedi creu amgylchedd cynnes a gofalgar yn yr ysgol.<br>• Mae athrawon a chynorthwywyr yn meithrin perthynas waith gartrefol a chefnogol iawn gyda disgyblion.<br>• Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn canolbwyntio ar sicrhau'r safonau lles uchaf posibl iddynt.<br>• Mae'r ysgol yn dangos arfer addysgegol sefydledig ac effeithiol iawn ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar, mae'r disgyblion hyn yn datblygu lefelau uchel o annibyniaeth ac yn gwneud defnydd sylweddol o ardal awyr agored sydd ag adnoddau da. Mae'r arfer effeithiol hwn wedi'i rannu ag ysgolion eraill ar sawl achlysur.<br>• Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn yr | – Pontio ffurfiol rhwng Blynyddoedd 6 a 7 yn dal yn angenrheidiol.<br>– Dim arbedion ariannol i'r Cyngor gan y byddai'r ddwy ysgol yn parhau i gael eu hariannu fel endidau ar wahân.<br>– Byddai Ysgol Clydau yn parhau i gael ei harolygu fel ysgol unigol. | sylweddol ar gyllideb ddirprwyedig Bro Preseli;<br>– Model aneffeithlon oherwydd dyblygu yn y ddarpariaeth | • Rhoi cyfle i'r pennaeth ddyrannu tasgau arweinyddiaeth allweddol, megis amddiffyn plant, llythrennedd, rhifedd, anghenion addysgol arbennig ac ati, i fwy o staff ac ar draws cyfnodau addysg.<br>• Creu cyfleoedd arweinyddiaeth ar gyfer staff eraill, ac i eraill arbenigo mewn meysydd allweddol, a fydd yn gwella'r ddarpariaeth addysg a'r canlyniadau.<br>• Caniatáu i staff addysgu a staff cymorth gael mynediad at ystod ehangach o gyfrifoldebau:<br>○ Gwell rhagolygon gyrfa;<br>○ Cwricwlwm wedi'i gydlynu'n well<br>○ Cyfle i addysgu ar draws ystod oedran ehangach ac ar draws gwahanol gyfnodau;<br>○ Gwell amrywiaeth o arbenigeddau |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| | ardal leol, gydag ymdeimlad cryf o "gynefin", mae hyn yn adlewyrchu anghenion ei disgyblion a'r gymuned. | | | Gwell cyfleoedd i staff ryngweithio a chydweithio |
| Dylai cyrff perthnasol hefyd ystyried gallu'r ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen a phob cyfnod addysg allweddol. Dylai'r ystyriaeth hon gynnwys ansawdd cyflwyno’r cwricwlwm a'r graddau y mae strwythur neu faint yr ysgol yn effeithio ar hyn. | • Mae arweinwyr yn ymroddedig iawn ac yn gweithio'n galed wrth gyflwyno cwricwlwm sy'n ddiddorol, yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn talu sylw priodol i gyd-destun yr ardal leol.<br>• Mae athrawon yn dangos gwybodaeth dda am y cwricwlwm ac yn darparu gwersi diddorol<br>• Mae'r holl staff yn fodelau iaith da ac yn cefnogi disgyblion i gofio dysgu blaenorol yn effeithiol.<br>• Ar adegau, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio rhai disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai hynny sy'n fwy abl<br>• Mae cysylltiad rhesymegol rhwng y | | | • Byddai'n darparu'r amodau a fyddai'n galluogi cwricwlwm ehangach a mwy amrywiol e.e. cyflwyno ieithoedd tramor modern, i ddiwallu anghenion disgyblion gan wneud hynny mewn ffyrdd a fyddai'n hyfyw ac yn gynaliadwy dros y tymor hwy;<br>• Gwella ystod ac ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael er budd pob disgybl;<br>• Galluogi mwy o barhad yn y cymorth a roddir i grwpiau agored i niwed o ddisgyblion;<br>• Creu cyfleoedd ar gyfer arbedion ariannol posibl ar strwythurau staffio a phrynu gwasanaethau, sydd yn cronni mewn ysgolion mwy. |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Pan fo cynigion yn cynnwys trosglwyddo dysgwyr i ddarpariaeth amgen, dylid fel arfer bod â thystiolaeth y byddai'r dewis amgen yn cyflawni canlyniadau ac yn cynnig darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr hynny ar hyn o bryd (gan gynnwys dysgwyr ag AAA). Gellid defnyddio cyngor Estyn fel tystiolaeth mewn perthynas â darpariaeth amgen sydd yn newydd sbon. Dylai cynigwyr sicrhau bod dysgwyr yn cael eu tarfu arnynt cyn lleied â phosib. | nodau a amlinellir yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol a gweithgareddau dysgu proffesiynol;<br>• Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella<br>• Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n ofalus, maen nhw'n sicrhau bod adnoddau dysgu addas ar gael ar gyfer pob dosbarth.<br><br>Ar y cyfan, mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus fel uned broffesiynol gref gan ddangos gwytnwch ac ymrwymiad yn ystod cyfnod heriol. Maent wedi llwyddo i hyrwyddo amgylchedd dysgu effeithiol gan sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd parhaus. | | | Byddai hyn yn galluogi canlyniadau cynaliadwy a gellid cynnig darpariaeth o ansawdd gwell i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol. Y prif newidiadau fydd gwell pontio rhwng cyfnodau addysgol a gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth addysgol, a dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar berfformiad addysgol y disgyblion. |
| Wrth asesu effaith cynigion ar ansawdd a safonau mewn addysg a pha mor effeithiol mae'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu, dylai cyrff perthnasol ystyried unrhyw gyngor perthnasol gan Estyn, cyfeirio at adroddiadau diweddaraf Estyn neu dystiolaeth arall sy'n deillio o fonitro perfformiad, ac ystyried unrhyw | | | | Ystyrir bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o addysg a darpariaeth yn yr ysgolion sydd wedi'u cyfuno. |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| wybodaeth arall sydd ar gael yn gyffredinol am effeithiolrwydd ysgol. | Mae'r cydweithrediad presennol ag Ysgol Bro Preseli yn cael ei gynnal ar sail anffurfiol heb unrhyw ymrwymiad cytundebol. Ni ellir felly ystyried y sefyllfa hon yn un hyfyw a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. | | | |
| | | | | |

**1.4 Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o ysgolion yn darparu addysg gynradd ac uwchradd ar gyfer eu hardal. Ystyrir bod ysgolion yn ddigonol os ydynt yn ddigonol o ran nifer, cymeriad ac offer i roi'r cyfle am addysg briodol i bob disgybl3 . Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynllunio'n drylwyr ac yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid perthnasol, gan gynnwys y cyrff crefyddol priodol4ar gyfer ysgolion sy'n gwasanaethu eu hardal sydd â chymeriad crefyddol dynodedig.

[3] Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996.

[4] Corff crefyddol priodol, yn achos ysgol yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol Gatholig Rufeinig, yw'r awdurdod esgobaethol priodol, neu yn achos ysgolion eraill, y corff sy'n cynrychioli'r grefydd a'r enwad crefyddol a nodir mewn perthynas â'r ysgol mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| Yng ngoleuni'r uchod, dylai'r cyrff perthnasol roi sylw i'r ffactorau canlynol: | | | | |
| **Pan gynigir cau ysgol, lleihau ei chapasiti neu gyfyngu ar ei hystod oedran:** | | | | |
| • a fydd gan ddarpariaeth ysgol amgen gapasiti digonol ac a fydd yn darparu llety o ansawdd cyfatebol o leiaf, ar gyfer y niferoedd disgyblion presennol a'r niferoedd a ragwelir. | Dim newid | Dim newid | Dim newid | Mae digon o gapasiti sbâr yn Ysgol Bro Preseli i ddarparu ar gyfer disgyblion Ysgol Clydau. Gellir ystyried bod y llety o ansawdd cyfatebol o leiaf. |
| • gan gyfeirio at natur yr ysgolion sy'n destun cynigion, a yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un:<br><br>a. categori iaith fel y'i nodir yn "Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg" Dogfen Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 023/2007 (Dogfen wybodaeth Rhif 023/2007); ac<br>*b.* (os yw'n berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig. | Dim newid | Dim newid | Dim newid | Mae'r dewis amgen a ffefrir, sef Ysgol Bro Preseli, yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir, ac mae'n o'r un categori iaith ag Ysgol Clydau.<br><br>Nid oes gan Ysgol Clydau nac Ysgol Bro Preseli gymeriad crefyddol. |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Ym mhob achos dylai awdurdodau lleol ystyried:<br>• I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg cymeradwy (CSCA)<br>• Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg ac yn achos yr olaf, nodi pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau. | Dim newid | Dim newid | Dim newid | Fel ysgol cyfrwng Cymraeg, bydd Ysgol Bro Preseli yn parhau i ddarparu darpariaeth gynradd ac uwchradd i ddysgwyr ac felly bydd yn parhau i gefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br><br>Nid ystyrir y bydd y cynnig hwn yn ehangu nac yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg; dim ond y bydd yn darparu cydweddiad agosach rhwng y nifer o leoedd sydd ar gael a'r galw amdanynt. |
| • Natur y siwrneiau i ddarpariaeth amgen a'r amseroedd teithio sy'n deillio o hynny i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA; yn benodol a fydd yn ofynnol i | Dim newid | Dim newid | Dim newid | Mae Ysgol Clydau ac Ysgol Bro Preseli tua 4 milltir oddi wrth ei gilydd. Ar sail y disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd yn Ysgol |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| ddisgyblion ysgol gynradd wneud teithiau unffordd dros 45 munud o hyd neu a fydd teithiau unffordd disgyblion ysgol uwchradd dros awr.<br><br>Dylai trefniadau ar gyfer mynediad at y ddarpariaeth amgen annog cludiant cynaliadwy, a dylai fynd i'r afael ag effaith bosibl unrhyw anawsterau gyda chludiant ar ymgysylltiad disgyblion â, a'u presenoldeb yn yr ysgol. Dylid asesu llwybrau cerdded neu feicio tebygol o safbwynt diogelwch a hygyrchedd cyn cyflwyno cynigion. | | | | Clydau, y pellter mwyaf a deithir gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Clydau yw 6.6 milltir. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, byddai'r pellter uchaf a deithir i Ysgol Bro Preseli, yn seiliedig ar ddisgyblion presennol Ysgol Clydau, oddeutu 8.2 milltir. Ni fyddai unrhyw blentyn yn wynebu teithiau unffordd dros 45 munud.<br><br>Er y bydd ysgolion yn annog cludiant cynaliadwy, mae'n anochel y bydd natur wledig ac ynysig yr ardal leol yn arwain at rieni'n mynd â'u plant i'r ysgol mewn car. Fodd bynnag, pe bai dalgylch Ysgol Bro Preseli yn cael ei ymestyn, byddai holl ddisgyblion Ysgol Clydau (ar y gofrestr ar hyn o bryd ond |

<table>
<tr><th>Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion</th><th>Cynnal y status quo</th><th>Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli</th><th>Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren</th><th>Cau Ysgol Clydau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>yn amodol ar wiriad) yn gymwys am gludiant ysgol.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Pan gynigir ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran;</td></tr>
<tr><td colspan="5" align="center">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="5">1.5 Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill<br><br>Mae'n bwysig bod cyllid ar gyfer addysg yn gost-effeithiol. Dylai cyrff perthnasol ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas ag adnoddau addysg:</td></tr>
<tr><td>• pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar leoedd dros ben yn yr ardal.</td><td colspan="3">Yn ôl PLASC 2025, roedd gan yr ysgolion y lleoedd dros ben canlynol:
<table>
<tr><th></th><th>Capasiti</th><th>Disgyblion (Derbyn - Bl6)</th><th>Lleoedd Sbâr</th><th>% Lleoedd Sbâr</th></tr>
<tr><td>Ysgol Clydau</td><td>71</td><td>35</td><td>36</td><td>50.7%</td></tr>
<tr><td>Ysgol Bro Preseli (Cyfnod Cynradd)</td><td>210</td><td>158</td><td>52</td><td>24.8%</td></tr>
</table>
Ni fydd yr un o'r opsiynau hyn yn effeithio ar leoedd dros ben yn yr ardal.</td><td>Yn amodol ar ddewis rhieni, i holl blant Clydau drosglwyddo i Ysgol Bro Preseli, bydd y cynnig yn arwain at ostyngiad mewn lleoedd sbâr.</td></tr>
<tr><td>• a yw’r cynigion yn ffurfio rhan o raglen fuddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yr awdurdod</td><td>Amherthnasol</td><td>Amherthnasol</td><td>Amherthnasol</td><td>Mae Ysgol Bro Preseli wedi'i chynnwys yn rhaglen dreigl Cymunedau Dysgu</td></tr>
</table>

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| lleol ac yn cyfrannu at ddarparu ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain ganrif ac at reoli ystâd yr ysgol yn well o safbwynt strategol. | | | | Cynaliadwy y Cyngor. Mewn perthynas â chyfnod cynradd yr ysgol, rhagwelir y bydd yr ysgol yn elwa o well cysylltiadau corfforol rhwng y cyfnod cynradd a gweddill yr ysgol, h.y. o ystyried statws 'pob oed' yr ysgol. |
| **Dylai** cyrff perthnasol hefyd ystyried y ffactorau canlynol mewn perthynas â chyllid: | | | | |
| • costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd o leiaf ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael. | Yn 2025, derbyniodd Ysgol Clydau £236,433 mewn Cyllid Fformiwla gan y Cyngor. | | Byddai Ysgol Bro Preseli yn derbyn elfen adeiladau cyllideb ddirprwyedig Ysgol Clydau yn ogystal â'i dyraniad Cyllid Fformiwla ei hun. Fodd bynnag, byddai'n gyfrifol am yr holl gostau sy'n deillio o redeg safle Ysgol Clydau. | Ar sail blwyddyn ariannol 2025/26, byddai'r Cyllid Fformiwla ar gyfer Ysgol Bro Preseli pe bai'n uno ag Ysgol Clydau yn £925,229; mae hyn yn cynrychioli arbediad gros o £129,367 |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| • costau cludiant ychwanegol sy’n codi o ganlyniad i’r cynigion;<br><br>***Dylai** cynigwyr ystyried y gofyniad ar awdurdodau lleol i ddarparu darpariaeth trafnidiaeth am ddim o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a **dylent** geisio cyngor Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol mewn perthynas â'r effaith y gallai'r cynnig ei chael ar gostau trafnidiaeth a'u fforddiadwyedd.* | Amcangyfrifir mai cost cludiant i Ysgol Clydau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol yw £34,463, ac y byddai’n yn aros yr un fath pe dewisid yr opsiwn i sefydlu Ffederasiwn neu safle lloeren (er gyda newidiadau dros amser wrth i niferoedd pobl a lleoliadau cartrefi amrywio). | | | Yn seiliedig ar gymhwysedd am gludiant o'r cartref i'r ysgol, mewn senario lle mae Ysgol Clydau yn cau a bod dalgylch yr ysgol yn dod yn rhan o ddalgylch Ysgol Bro Preseli, byddai cost cludiant yn £86,625.<br><br>Byddai hyn yn golygu cynnydd o £52,162 mewn costau cludiant. |
| • costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael; | Ni fydd unrhyw gostau cyfalaf yn codi yn sgil gweithredu'r cynnig. Nid yw cost ailddatblygu Ysgol Bro Preseli fel rhan o raglen dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor yn hysbys ar hyn o bryd; fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y prosiect hwnnw. | | | |
| • graddfa unrhyw arbedion net a ragwelir (gan ystyried refeniw ysgolion, costau cludiant a chostau cyfalaf).<br><br>*Mewn perthynas â chynigion lle mae angen buddsoddiad cyfalaf* | Amherthnasol | Ni fydd yr un o'r opsiynau hyn yn arwain at arbedion i'r Awdurdod Lleol, gan y bydd y ddau adeilad / safle’n cael eu cadw. | | Ar sail y dyraniadau cyllid fformiwla ar gyfer 2024/25, byddai uno Ysgol Clydau gydag Ysgol Bro Preseli yn arwain at arbediad gros o £129,367. |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| *sylweddol ymlaen llaw (er enghraifft i gefnogi prosiect ailfodelu, adnewyddu neu adeiladu newydd sylweddol),* ***dylid*** *cyfrifo costau ac arbedion y cynigion dros oes yr adeilad perthnasol, a'u cymharu â'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig â chynnal y status quo.* | | | | Gan ystyried y costau cludiant ychwanegol o £52,162, byddai'r arbediad net yn £77,205[5]<br><br>O ystyried bod digon o gapasiti dros ben yn Ysgol Bro Preseli i ddarparu ar gyfer dysgwyr Ysgol Clydau, nid oes angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf ymlaen llaw i alluogi'r cynnig i fynd yn ei flaen. |
| • a fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffygion aiannol heb y cynigion. | Roedd gan Ysgol Clydau warged o £18,700 ar ddiwedd 2024/25. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Tachwedd 25) amcangyfrifir bydd gwarged o £5,600 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Dyma fydd y sefyllfa os penderfynir cadw'r status quo neu sefydlu Ffederasiwn | | | |
| • a fydd unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol; ac | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Bydd unrhyw arbedion sy'n deillio o'r cynnig yn cael eu cadw yng nghyllideb ysgolion |

[5] Bydd y ffigurau hyn yn newid wrth i niferoedd disgyblion a lleoliadau cartrefi amrywio. Dylid eu hystyried fel amcangyfrif yn unig.

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yr awdurdod lleol i ddechrau ond gellid eu defnyddio fel rhan o fesurau arbed arian y Cyngor. |
| • a fydd yr elw o werthiant (derbyniadau cyfalaf) safleoedd diangen ar gael i dalu costau'r cynnig neu i gyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hyrwyddo rheolaeth lleoedd ysgol effeithlon | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol, ni fyddai ar y Cyngor angen yr adeilad mwyach a byddai'r Adran Eiddo yn ceisio cael gwared arno neu ei brydlesu, yn dibynnu ar ddiddordeb y farchnad.<br><br>Gellid defnyddio unrhyw dderbyniadau cyfalaf sy'n deillio o werthiant yr ysgol i wrthbwyso'r benthyciadau sydd eu hangen i ariannu Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy’r Cyngor, yn cynnwys y prosiect arfaethedig i ailddatblygu Ysgol Bro Preseli. |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **1.6 Ffactorau cyffredinol eraill** | | | | |
| **Dylai** cyrff perthnasol ystyried y ffactorau cyffredinol canlynol: | | | | |
| • pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd economaidd difreintiedig; | pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig ; 8.8% oedd cymhwysedd am Brydau Ysgol Am Ddim yn Ysgol Clydau yn 2024, o'i gymharu â chyfartaledd y sir o 17.9%. | | | |
| • unrhyw faterion cydraddoldeb, yn cynnwys y rhai a nodwyd trwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; ac | Yn y sector cynradd, ystyrir na fydd unrhyw effaith ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Atodiad 4 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | | | |
| • p'un a yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw fuddiannau elusennol neu ymddiriedolaeth y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er enghraifft mewn perthynas â defnyddio neu waredu tir. | Mae'r holl ysgolion dan sylw ym mherchnogaeth y Cyngor ac nid ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw fuddiannau ymddiriedolaeth nac elusennol y gallai'r cynnig effeithio arnynt. | | | |
| **1.7 Ffactorau penodol i roi sylw iddynt wrth ystyried cau ysgolion** | | | | |
| Wrth ystyried a yw cau yn briodol, dylid rhoi sylw arbennig i'r canlynol: | | | | |
| • a ellid ystyried sefydlu ysgolion aml-safle fel modd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros | Mae trefniant cydweithredu wedi'i sefydlu rhwng Ysgol | | Mae'n annhebygol y bydd hyn yn drefniant | Dyma'r opsiwn a ffefrir a fydd yn arwain at ostyngiad |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| beidio â mynd ar drywydd yr opsiwn hwn;<br>• a ellid ystyried dewisiadau yn lle cau, megis clystyru, cydweithio neu ffedereiddio ag ysgolion eraill, (gan ystyried y gallu i defnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion) neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried yr opsiynau hyn fel dewisiadau amgen; | Clydau ac Ysgol Bro Preseli yn dilyn ymddiswyddiad pennaeth Bro Clydau yn 2024. Trefniant anffurfiol yw hwn ar hyn o bryd ac ni ellir ei gynnal yn yr hirdymor. | Gellir ystyried yr opsiwn hwn fel un 'Gwneud yr isafswm'. | ariannol hyfyw i Ysgol Bro Preseli, o ystyried yr angen i gynnal a staffio dau adeilad ysgol. Bydd yn cadw darpariaeth yn lleol, ond ni fydd yn mynd i'r afael â'r mater o leoedd dros ben sylweddol yn yr ardal. | sylweddol mewn lleoedd dros ben yn yr ardal yn ogystal ag arbedion ariannol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn arwain at gadw adeiladau. |
| • A ellid archwilio'r posibiliad o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol; | Dim newid | Dim newid | Dim newid | Mae Canolfan Clydau yn ganolfan gymunedol sydd wedi'i chyd-leoli ar safle Ysgol Clydau yn Nhegryn. Er y byddai cau'r ddarpariaeth addysg yn golled, ni fyddai fawr ddim o'r cyfleusterau a ddefnyddir ar safle'r ysgol gan y gymuned leol yn cael eu colli. Mae Canolfan Clydau'n cael ei phrydlesu gan CSP. |
| • Effaith gyffredinol cau ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau mewn ysgolion sy'n cael eu defnyddio gan y gymuned leol) | Dim newid | Dim newid | Dim newid | |
| | | | | |
| **1.8 Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig** | | | | |

| Ffactorau Cod Trefniadaeth Ysgolion | Cynnal y status quo | Sefydlu Ffederasiwn gydag Ysgol Bro Preseli | Cau Ysgol Clydau ond ei chadw fel lloeren | Cau Ysgol Clydau |
|---|---|---|---|---|
| Mae'r gofynion ychwanegol pan fydd cau ysgol wledig yn cael ei ystyried wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon, yn bennaf yn yr atodiad 6 hwn (gan ystyried er enghraifft ansawdd a safonau addysg ac effaith debygol gwahanol drefniadau teithio), ynghyd â'r rhesymau dros y cynnig/heriau allweddol (wedi'u nodi'n bennaf yn adran 5 ond hefyd trwy gydol y ddogfen), a nodi ac ystyried dewisiadau amgen rhesymol (adran 6 ac atodiad 6). Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn atodiad 3 hefyd yn rhan bwysig o'r ystyriaeth.<br><br>Bodlonwyd y gofynion cyn cychwyn ar ymarfer ymgynghori yng nghyfarfod y Cyngor ar 8 Mai 2025. | | | | |
| **1.9 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ychwanegu neu ddileu dosbarthiadau meithrin** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **1.10 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu ychwanegu neu ddileu chweched dosbarth** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **1.11 Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu sefydlu ysgol wirfoddol newydd** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **1.12 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid cyfrwng iaith** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **1.13 Ffactorau penodol wrth ystyried cynigion ar gyfer newid categori ysgol** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |
| **1.14 Ffactorau ychwanegol i'w hystyried wrth baratoi, cyhoeddi, cymeradwyo neu benderfynu ar gynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth AAA.** | | | | |
| Amherthnasol | | | | |

## Cau Ysgol Clydau:

- **Disgyblion yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli, yn amodol ar ddewis rhieni;**
- **Dalgylch Ysgol Clydau i ddod yn rhan o ddalgylch estynedig Ysgol Bro Preseli.**

**1) Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu'ch barn ar y cynnig:**

| Cau Ysgol Clydau gyda'r disgyblion, yn amodol ar ddewis rhieni, yn trosglwyddo i Ysgol Bro Preseli | **Ticiwch un os gwelwch yn dda** |
|---|---|
| Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd na'r llall | |
| Rwy'n cefnogi'r cynnig | |
| Nid wyf yn cefnogi'r cynnig | |

**2) Darparwch unrhyw ddewisiadau amgen sydd gennych yn lle cynnig y Cyngor.**

**3) Nodwch a yw'r cynnig i ddalgylch ysgol Ysgol Clydau ddod yn rhan o ddalgylch estynedig Ysgol Bro Preseli yn dderbyniol, os penderfynir cau Ysgol Clydau.**

| | **Ticiwch un os gwelwch yn dda** |
|---|---|
| Derbyniol | |
| Ddim yn dderbyniol | |
| Arall – nodwch isod os hoffech i drefniant dalgylch amgen gael ei ystyried. | |

**4) Pa effeithiau ydych chi'n teimlo y byddai'r cynnig neu’r cynigion yn eu cael ar**

- **gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**
- **sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

**Ystyriwch a ellir newid y cynnig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol (neu fwy cadarnhaol), ac osgoi neu leihau effeithiau negyddol, ar:**

**(i) cyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg?**
**(ii) yr angen i beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?**

**Os felly - Sut? Os na - Pam?**

**5) Rhowch unrhyw sylwadau eraill ar y cynnig.**

## Amdanoch chi:

**6). Dywedwch wrthym amdanoch chi** *(ticiwch bopeth sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Rhiant plentyn oedran cyn-ysgol | |
| Staff | |
| Rhiant/Gofalwr/Gwarcheidwad | |
| Llywodraethwr | |
| Preswylydd lleol | |
| Arall (nodwch isod) | |

______________________________________

**7). Pa ysgol neu ysgolion sydd o ddiddordeb i chi yn bennaf yn yr ymgynghoriad hwn?**
*(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Ysgol Clydau | |
| Ysgol Bro Preseli | |
| Ysgol Cilgerran | |
| Ysgol Bro Brynach | |
| Ysgol Beca | |
| Ysgol Hafodwenog | |
| Ysgol y Ddwylan | |
| Ysgol Llandudoch | |
| Ysgol Eglwyswrw | |
| Ysgol Brynconin | |
| Ysgol Maenclochog | |
| Arall (nodwch isod) | |

__________________________________________

**8). A ydych chi'n...?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| 15 neu iau | |
| 16-24 | |
| 25-34 | |
| 35-44 | |
| 45-54 | |
| 55-64 | |
| 65-74 | |
| 75 + | |

| | |
|---|---|
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**9). Pa rywedd ydych chi'n uniaethu ag ef?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Gwrywaidd | |
| Benywaidd | |
| Anneuaidd | |
| Mae’n well gen i ddefnyddio term arall | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**10). Sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Gwyn | |
| Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | |
| Roma | |
| Grŵp ethnig cymysg/lluosog | |
| Asiaidd | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |
| Arall | |

**11). Beth yw eich crefydd neu'ch cred?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Dim crefydd | |
| Cristion (pob enwad) | |
| Bwdhydd | |
| Hindŵ | |
| Iddew | |
| Mwslim | |
| Sikh | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |
| Arall | |

**12). Oes gennych unrhyw gyflyrau neu salwch iechyd corfforol neu iechyd meddwl sydd wedi para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**13). A yw unrhyw un o'ch cyflyrau neu salwch yn lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau o ddydd i ddydd?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Ydyn, yn sylweddol | |
| Ydyn, ychydig | |
| Ddim o gwbl | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**14). Ydych chi'n gofalu am, neu'n helpu neu'n cynorthwyo unrhyw un am fod ganddynt gyflwr neu salwch iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint.** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Oes | |
| Nac oes | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**15). Allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**
*(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

| | |
|---|---|
| Yn deall Cymraeg llafar | |
| Yn siarad Cymraeg | |
| Yn darllen Cymraeg | |
| Yn ysgrifennu Cymraeg | |
| Dim un o'r uchod | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |

**16). Beth yw eich prif iaith?** *(Ticiwch un yn unig)*

| | |
|---|---|
| Cymraeg | |
| Saesneg | |
| Gwell gennyf beidio â dweud | |
| Arall | |

**Ticiwch y blwch os ydych am gael gwybod am gyhoeddiad Adroddiad Ymgynghori.** ☐

**DIM OND os ydych am gael copi o'r Adroddiad Ymgynghori y gofynnir i chi ddarparu manylion e-bost a chyfeiriad post. Mae'r wybodaeth arall y gofynnir ichi ei rhoi ar gyfer Monitro Cydraddoldeb, ac fe'i defnyddir at ddibenion ystadegol yn unig.**

**Enw mewn llythrennau bras.....................................    E-bost ……..................................................**

**Cyfeiriad......................................................................................................................**

**.......................................................................................................................………**

**Oni bai eich bod yn gofyn i ni beidio, byddwn yn sicrhau bod unrhyw sylwadau a wnewch ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori.**

**Ticiwch y blwch hwn os nad ydych yn dymuno i'ch sylwadau fod ar gael i'r cyhoedd.**

☐

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.

**Dychwelwch i CSP drwy un o'r opsiynau cyswllt isod erbyn 5pm ddydd Gwener ar 23 Ionawr 2026 fan bellaf.**

| | |
|---|---|
| Llythyr at: | Steven Richards-Downes<br>Cyfarwyddwr Addysg<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd<br>SA61 1TP |
| E-bost: | EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk |
| Ar-lein: | www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud/ymgynghoriadau |

**Diolch am eich amser**